



**Cyfarwyddiaeth Pobl
Gwasanaethau Cymdeithasol
Adroddiad Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol**



**Adroddiad Blynyddol
Prif Swyddog y Gwasanaethau
Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Statudol
y Gwasanaethau Cymdeithasol)**

2017/18

**ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR
ABERTawe 2017-2018
ADRODDIAD GAN DAVID HOWES, PRIF SWYDDOG Y GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL**

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad
 - 2a) Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
 - 2b) Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion
 - 2c) Blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer gwella
3. Sut mae pobl yn llywio gwasanaethau
4. Hyrwyddo a gwella lles y bobl rydym yn eu helpu (chwe safon)
 - 4a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-lunio canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni
 - 4b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl
 - 4c) Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cam-driniaeth, esgeulustod neu niwed
 - 4ch) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas
 - 4d) Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel
 - 4f) Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni mwy o les economaidd, mwynhau bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion
5. Sut rydym yn gwneud yr hyn rydym yn ei wneud
 - 5a) Ein gweithlu a sut rydym yn eu cefnogi yn eu rolau proffesiynol
 - 5b) Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol
 - 5c) Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd
6. Cael mynediad at fwy o wybodaeth a dogfennau allweddol
 - 6a) Cwynion a sylwadau
 - 6b) Mwy na geiriau

Atodiadau

1. Crynodeb o berfformiad ansoddol a meintiol
2. Rhaglenni gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol

1. CYFLWYNIAD GAN BRIF SWYDDOG Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol gael effaith enfawr, gadarnhaol ar fywydau pobl. Mae'n bwysig ein bod yn myfyrio'n gyson ar y ffordd rydym yn gwneud pethau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n gywir. Mae'n hanfodol hefyd ein bod yn gwrandao ar y plant, y bobl ifanc, yr oedolion, y teuluoedd a'r gofalwyr rydym yn eu cefnogi er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at fod y gorau y gallwn fod; bob amser yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2017/2018 gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bodloni gofyniad o dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Y Ddeddf').

Yn fy rôl fel Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r adroddiad hwn yn darparu cyfle pwysig i amlygu'r cynnydd rydym yn ei wneud ar ein taith welliant drwy adolygiad eang o berfformiad gwasanaethau.

Daeth y ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016, ac mae'r newidiadau i ofynion statudol eisoes yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol a sut rydym yn darparu gofal a chefnogaeth a reolir i bobl fwyaf diamddiffyn Abertawe. Mae'n gosod lles pob dinesydd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud.

Yn yr adroddiad hwn, byddaf yn dangos pa mor dda mae Cyngor Abertawe'n perfformio; sut rydym yn gweithio gyda phobl i lunio gwasanaethau a sut rydym yn bodloni safonau ansawdd cenedlaethol wrth:

- Sicrhau ein bod yn darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth o safon ynghylch yr hyn sydd ar gael.
- Cefnogi a galluogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i fod yn fwy annibynnol.
- Sicrhau bod pobl yn cael llais a rheolaeth i gyflawni'r hyn maent am ei gyflawni mewn bywyd, a bod ganddynt y gallu i fynegi'r canlyniadau y maent am eu cyflawni.
- Gofalwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu lles eu hunain.
- Pobl yn cael eu cefnogi'n gynt ac yn cael cefnogaeth ataliol mewn cymunedau cryfach, lleol.

Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn nodi sut rydym yn parhau i ddiogelu ein plant, ein pobl ifanc a'n hoedolion mwyaf diamddiffyn.

Rydym yn wynebu sawl her; pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol; poblogaeth sy'n tyfu ag anghenion mwyfwy cymhleth; galw cynyddol am ofal cymdeithasol a disgwyliadau dinasyddion yn newid. Ni allwn fynd i'r afael â'r heriau hyn ar ein pennau ein hunain ac felly mae gweithio mewn partneriaeth effeithiol drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd Abertawe'n bwysicach nag erioed o'r blaen.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol a diogelu'n parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r cyngor.

Mae gennym arweinyddiaeth wleidyddol gref a chefnogaeth ein Haelod y Cabinet, Mark Child, a'r Cabinet ehangach; her adeiladol dau fwrdd Craffu dynodedig â ffocws ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, monitro ac arolygu rheolaidd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Prif Weithredwr, Phil Roberts; cynnwys y cyngor yn ein trefniadau Diogelu Corfforaethol a Magu Plant Corfforaethol; a chefnogaeth drawsbleidiol gan y cyngor.

Fel rhan o'r rhaglen Abertawe Gynaliadwy ehangach, mae'r cyngor yn ymrwymedig i gyflwyno ymagwedd gynaliadwy tuag at ofal cymdeithasol; yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn well a mwyafu cyfleoedd i bobl fyw mor annibynnol a diogel â phosib.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi ymweld â rhwng 30 a 40 o'n timau a'n gwasanaethau ar draws y gwasanaethau i blant a theuluoedd.

Nid oes unrhyw dîm neu wasanaeth sy'n peri pryder i mi o ran safon yr arfer, pwysigrwydd y gwasanaeth a gyflwynir, yr ymgyrch i arloesi er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol, neu sgil ac ymrwymiad rheolwyr, staff a chydweithwyr cefnogi busnes.

Mae ansawdd, gwaith caled a chyflawniadau ein staff sy'n gweithio mewn partneriaeth ag oedolion, plant, teuluoedd a gofalwyr diamddiffyn yn Abertawe'n golygu ein bod yn gallu bod yn falch o'r gofal cymdeithasol rydym yn ei ddarparu.

Mae ein rheolaeth perfformiad corfforaethol a'n trefniadau craffu cadarn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ymdrechu'n barhaus i gyflwyno gwelliannau a bod ein cynlluniau busnes yn cael eu cyflwyno yn ôl yr amserlen.

Mae'r her o sicrhau bod ein harfer yn parhau i fod yn rhagorol, bod ein gofal, ein chefnogaeth a'n gwasanaethau'n parhau i fod o safon uchel, a'n bod yn cyrraedd safle sy'n gynaliadwy'n ariannol, yn un fawr.

Er gwaethaf cynnydd sylweddol tuag at sefydlu gwasanaeth mwy cynaliadwy, mae bwlch sylweddol yn parhau i fod rhwng swm yr arian sydd ar gael i'r cyngor er mwyn cefnogi anghenion gofal a chefnogaeth dinasyddion a chost go iawn darparu'r gofal hwnnw wrth fynd ymlaen. Mae hon yn broblem genedlaethol.

Yn lleol, bydd rhaid i ni barhau i ddatblygu ein hymagwedd, cyfuno mwy o'r hyn rydym yn ei wneud, stopio gwneud rhai pethau, dechrau pethau newydd, gwneud ambell gamgymeriad a dod ar draws pethau arbennig ar hap yn hytrach nag ar bwrpas ond, yn seiliedig ar y cannoedd o unigolion rwyf wedi cwrdd â hwy hyd yn hyn, mae gennyf bob hyder y byddwn yn llwyddiannus.

Mae'n galonogol ein bod yn parhau i glywed mwy a mwy o straeon sy'n dystiolaeth bod y gwasanaeth yn wych a bod canlyniadau'n cael eu cyflawni.

Rwy'n fodlon bod cynnydd yn cael ei wneud ar draws holl feysydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y cyngor ehangach yn cyfrannu'n gryf at hyrwyddo lles dinasyddion yn fwy cyffredinol.

Mae gan Abertawe Wasanaethau Cymdeithasol cryf y gall pob un ohonom barhau i ymfalchïo ynddynt.

DAVID HOWES, PRIF SWYDDOG Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

2. CRYNODEB Y CYFARWYDDWR O BERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn ystyried pa mor dda y mae ein gwasanaethau wedi bod wrth gyflwyno eu gofynion statudol, cyflawni eu targedau perfformiad a mynd i'r afael â blaenoriaethau'r llynedd ar gyfer gwella.

Mae'n amlygu ein prif weithgareddau, perfformiad yn erbyn targedau a rhaglenni gwella o fewn y:

- Gwasanaethau i Oedolion
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Mae'n nodi blaenoriaethau gwella Abertawe ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae Cyngor Abertawe, fel gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn wynebu galw digynsail a heriau o ran adnoddau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r awdurdod lleol ehangach. Mae Cyngor Abertawe'n ymdrechu i reoli galw drwy wneud pethau'n gywir wrth ein drws blaen statudol, a sicrhau bod y gwasanaethau sy'n darparu help yn gynnar ac yn canolbwyntio'n fwy ar atal wedi'u trefnu i weithio gyda'r rhai mwyaf diamddiffyn, boed hynny'r gwasanaethau i oedolion neu'r plant a theuluoedd.

Bu rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd yn ystod y flwyddyn hon, gan gynnwys cyflwyno taliadau newydd am wasanaethau dydd a seibiant yn y cartref, er mwyn gwneud y gwasanaethau cymdeithasol yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Ein nod yw gwasanaethu poblogaeth Abertawe, sef oddeutu 244,500 o bobl, sy'n cynnwys oddeutu **47,300** o blant a phobl ifanc 0-17 oed a **197,200** o oedolion 18 oed ac yn hŷn. Mae'n boblogaeth fawr sy'n cynyddu'n raddol, yn bennaf oherwydd mudiad rhyngwladol a mewnol (y DU), ac am fod pobl yn byw'n hwy.

Mae oddeutu **109,000** o aelwydydd ar draws Abertawe, sy'n gartrefi i deuluoedd â phrofiadau bywyd gwahanol iawn, ac rwy'n ymwybodol o'r amrywiaethau eang rhwng canlyniadau lles dinasyddion o ardaloedd tlotaf a chyfoethocaf y ddinas. Mae agen i ni gynllunio'n effeithiol o ran ble a sut rydym yn targedu ein hadnoddau, gan y rhagwelir y bydd nifer cyffredinol yr aelwydydd yn cynyddu i 124,578 erbyn 2035 (ffynhonnell: Daffodil), lle rhagwelir y bydd yr adnoddau sydd ar gael i'r cyngor yn lleihau, o leiaf yn y tymor byr i ganolig.

2A) PERFFORMIAD Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD (y llynedd mewn cromfachau):

O'r oddeutu **47,300** o blant a phobl ifanc 0-17 oed sy'n byw yn Abertawe, mae **3,428** yn blant, a chefnogwyd oddeutu **2,085** o deuluoedd yn uniongyrchol gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod 2017/2018.

Mae gan Abertawe gyfradd o **285** o blant fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n derbyn gofal a chefnogaeth a reolir, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (yn seiliedig ar gyfrifiad 31 Mawrth 2017).

Ar draws awdurdodau lleol Cymru, mae cyfradd y plant y mae angen gofal a chefnogaeth statudol arnynt yn amrywio rhwng 120 a 414 o blant, fesul 10,000 o'r boblogaeth (Ffynhonnell: Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chefnogaeth).

Mae'n debygol bod llawer o blant yn Abertawe'n byw mewn aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm (25% yn 2011).

Roedd enghreifftiau o riant yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol, camdrin domestig ac afiechyd meddwl rhiant yn ffactor a gofnodwyd mewn dros chwarter o'r holl achosion o blant yn derbyn gofal a chefnogaeth yn Abertawe (Ffynhonnell: [Wales-children-receiving-care-support-census-2017](#))

Cysylltwyd â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd **9,529** o weithiau ynghylch plant y gall fod angen cefnogaeth arnynt, ac arweiniodd y cysylltiadau hyn at **1,722** o atgyfeiriadau yn ystod 2017/18.

O'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod 2017/18, roedd **190** (207) yn ail-atgyfeiriadau.

Derbyniodd **1,731** (1738) o blant a theuluoedd gyngor a chymorth gan wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Abertawe.

Cwblhawyd **2,187** o asesiadau o blant eleni, gan gynnwys **1,731** o asesiadau cyfatebol o blant ag anghenion gofal a chefnogaeth a achoswyd gan atgyfeiriad newydd.

O'r rhain, aeth **759** (582) o blant ymlaen i gael cynllun gofal a chefnogaeth.

Nodwyd **17** (2) o ofalwyr ifanc ac aseswyd eu hanghenion. Arweiniodd **15** (0) at gynllun cefnogi.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd **903** (996) o blant y mae angen gofal a chefnogaeth barhaus arnynt; Roedd yr awdurdod yn gofalu am **520** (481) o blant ac roedd **254** (252) o blant yn destun cynllun amddiffyn plant.

Daeth **194** (192) o blant yn rhai sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

Cafodd nifer uchel o achosion plant, **1,680**, eu cau'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

Cafodd llai o blant (**34**) sy'n derbyn gofal eu gosod mewn gofal preswyl yn ôl mis Mawrth 2018 (40 y llynedd).

Mae **190** o blant yn Abertawe sy'n derbyn gofal yn cael eu gosod gyda gofalwyr maeth mewnol (Maethu Abertawe), sef **66%** o'r holl leoliadau maethu (64% y llynedd).

Mae **110** o blant sy'n derbyn gofal, sef **34%**, wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth annibynnol (94 y llynedd, sef 36%).

Mae gennym **131** (135) o ofalwyr Maethu Abertawe cymeradwy, sy'n cynnig hyd at **248** (302) o leoedd cofrestredig.

Roedd **37** o blant o Abertawe'n destun gorchmynion mabwysiadu newydd a gymeradwywyd.

Dychwelodd **12.59%** o blant adref yn dilyn cyfnod o dderbyn gofal (**91/723** o blant a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn).

Sylw:

Nod y Gwasanaethau Plant yw cyflawni canlyniadau diogelwch a lles da i blant.

Ein ffocws yw sicrhau bod plant ag anghenion gofal a chefnogaeth yn ddiogel ac yn sefydlog, cyn gynted â phosib, gan gynyddu tebygolrwydd cyflawni'r canlyniadau gorau posib.

Drwy ddefnyddio fframwaith arfer 'Signs of Safety', mae gweithwyr cymdeithasol yn cadw plant a theuluoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud, drwy wrando a gwerthfawrogi eu profiad. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau, drwy gyflawni diogelwch, lles a sefydlogrwydd i blant, ein bod hefyd yn cyflwyno gwasanaeth cynaliadwy ac effeithlon.

Mae rhaglen a chynllun gwaith Gwella Plant a Theuluoedd (gweler atodiad 2) yn nodi ein hymagwedd at gyflwyno'r weledigaeth hon a model cynaliadwy o wasanaeth.

Ein gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd:

Plant diamddiffyn yn cael eu diogelu, yn byw gyda theuluoedd parhaol, sefydlog, diogel a chariadus (yn derbyn gofal gan eu teulu biolegol ac yn eu cymuned lle y bo'n bosib), sy'n darparu cyfleoedd i lwyddo ac oedolaeth fodlon ac iach, lle gallant gymryd rhan yn llawn yn yr hyn sydd gan y gymdeithas i'w gynnig (diweddarwyd Mehefin 2018).

Mae gweledigaeth Abertawe wedi'i thanategu gan Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2014).

Edau Euraidd - Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Abertawe'n cydnabod na allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain - mae angen ein partneriaid i'n cefnogi er mwyn cyflawni ymagwedd integredig at les ac i weithio tuag at edau euraidd o egwyddorion sydd wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud.

- Nodi/ymyrryd/atal yn gynnar
- Diogelwch
- Sefydlogrwydd
- Lles/canlyniadau
- Gwydnwch

- Cyfranogiad/cyd-lunio
- Partneriaeth/cynladwyedd

Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi datblygu strategaeth Cyfranogiad a Chyd-lunio ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ddrafft 2018-22. Y nod yw y bydd y strategaeth hon yn ategu gwaith fframwaith gwaith cymdeithasol 'Signs of Safety', drwy atgyfnerthu'r ffyrdd y gall plant a phobl ifanc ddylanwadu ar siâp gwasanaethau, a'u gofal a'u cefnogaeth yn y dyfodol.

Mae Abertawe'n parhau i weithredu strategaeth Lleihau Nifer y PDG yn Ddiogel sy'n newid proffil plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe a sut maent yn cael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posib, yn ogystal â mynd i'r afael â nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal.

MESURAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL PLANT A THEULUOEDD 2017/18

- Canran y penderfyniadau a wnaed o ran atgyfeirio am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd a wneir o fewn 24 awr o dderbyn yr atgyfeiriad = **99.9%** Targed 17/18=100%
- Canran y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol = **88.9%** Targed=95%
- Nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe = **111** Targed=90><102
- Nifer y plant ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdod lleol fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe = **54** Targed = 45><52
- Nifer y plant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe = **192** Targed = 190><205
- Canran yr holl ddangosyddion statudol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y maent wedi cynnal neu wella eu perfformiad ers y flwyddyn flaenorol = **40%** Targed = 80%
- Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol = **72.4%** Targed = 90%
- Cyfnod cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn = **208.5 o ddiwrnodau** Targed = 100><300
- Canran y plant sy'n fodlon ar eu gofal a'u cefnogaeth (Mesur 13: plant) = **76.2%**
- Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy (Mesur 33) = **9.77%** Targed = 7%

2B) PERFFORMIAD GWASANAETHAU I OEDOLION (y llynedd mewn cromfachau):

O'r 197,164 o oedolion sy'n 18 oed ac yn hŷn yn Abertawe, derbyniodd **7,573** (7,015) o bobl ofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau i Oedolion yn ystod y flwyddyn hon. O'r nifer hwn, roedd **5,932**, sef **78.3%** (5,437) o bobl yn derbyn help yn eu cartrefi eu hunain. Derbyniodd **1,641**, sef **21.7%** (1,578) o oedolion ofal preswyl neu nyrso.

Cysylltwyd â'r Gwasanaethau i Oedolion **25,016** (25,200) o weithiau ynghylch dinasyddion y gallai fod angen gofal a chefnogaeth arnynt. Daeth **12,965** neu **51.8%** (13,015 neu 51.6%) o'r cysylltiadau hyn yn atgyfeiriadau a arweiniodd at gyngor neu gymorth.

Cynhaliodd y Gwasanaethau i Oedolion **11,086** (9,525) o asesiadau gofal cymdeithasol.

Mae **743** (521) o bobl yn rheoli eu cefnogaeth eu hunain yn y gymuned drwy daliad uniongyrchol.

Y llynedd, cyflwynodd a gosododd ein Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol ar y Cyd **36,560** o eitemau o gyfarpar, gwerth oddeutu cyfanswm o **£5,144,159** ar gyfer **9,153** o ddinasyddion sy'n byw yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Derbyniodd y Gwasanaethau i Oedolion **1,321** (1,271) o ymholiadau diogelu, rydym wedi derbyn **540** (522) ohonynt fel atgyfeiriadau lle bodlonwyd y trothwy pryderon posib.

Gwnaed **1,307** (1128) o geisiadau am Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid i'r Gwasanaethau i Oedolion yn ystod 2017/18.

Aseswyd **684** (529) o ofalwyr gan y Gwasanaethau i Oedolion yn ystod y flwyddyn.

Ar ddiwedd 2017/18, mae **5,904** (6,274) o bobl ag achosion agored y mae eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu hasesu a'u rheoli.

Sylw:

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn parhau i fod yn brysur gyda lefelau uchel o alw cynyddol am asesiadau a gofal a chefnogaeth barhaus. Fodd bynnag, mae rhai arwyddion ein bod yn dechrau arddangos canlyniadau gwell drwy ddarparu cefnogaeth yn gynnar a chymorth tymor byr wedi'i dargedu. Mae llawer o unigolion yn derbyn ymyriadau a dargedir sy'n eu helpu i barhau i fyw'n annibynnol a heb angen parhaus am ofal a chefnogaeth. Fodd bynnag, mae dal i fod, a bydd bob amser, nifer uchel o bobl y mae angen gofal a reolir arnynt am gyfnod hwy.

Gweledigaeth ein Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer iechyd, gofal a lles yn y dyfodol yw:

"Bydd gan bobl yn Abertawe fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol modern a fydd yn eu galluogi i fyw bywydau bodlon gydag ymdeimlad o les mewn teuluoedd cefnogol a chymunedau cadarn. Byddwn yn helpu pobl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt deimlo'n ddigon hyderus i allu lleisio barn, dewis a rheolaeth ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd ein gwasanaethau'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a galluogi pobl, a byddwn yn cyflwyno cefnogaeth well er mwyn i bobl allu manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt, gyda chefnogaeth ein gweithlu medrus a gwerthfawr"

(Datblygwyd y datganiad gweledigaeth hwn mewn ymgynghoriad â staff, y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac mae'n cael ei gynnwys ym model gorau posib gwasanaeth ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion Cyngor Abertawe, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus).

Er mwyn cefnogi'r weledigaeth, mae'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau i Oedolion yn canolbwyntio ar ddilyn chwe phrif egwyddor er mwyn gwella ar gyfer gosod y person wrth wraidd ei ofal a'i gefnogaeth, ei ofalwyr a'n cymunedau.

- Ataliaeth well
- Cymorth cynnar gwell
- Ymagwedd newydd at asesu
- Cadw pobl yn ddiogel
- Gweithio gyda'n gilydd yn well
- Gwell cost effeithiolrwydd

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod gwybodaeth am reoli perfformiad o safon ar gael i reolwyr a'r tîm craffu, am fod hyn yn caniatáu her gadarn a gwell trafodaethau ynghylch sut y defnyddir adnoddau.

MESURAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL Y GWASANAETHAU I OEDOLION 2017/18

- Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion i'r Gwasanaethau i Oedolion lle gwnaed penderfyniadau o fewn 24 awr (h.y. 1 diwrnod gwaith) = **63.7%** Targed 2017/18 = 65%
- Canran yr asesiadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a gwblhawyd mewn 21 o ddiwrnodau neu lai = **59.6%** Targed = 60%
- Canran yr adolygiadau blynyddol o gynlluniau gofal a chefnogaeth a gwblhawyd gan y gwasanaethau i oedolion = **68.4%** Targed = 65%

- Cyfradd yr oedolion sy'n 65 oed ac yn hŷn sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion lles fesul 1000 o'r boblogaeth = **111.5** Targed = 108><113
- Cyfradd yr oedolion rhwng 18 a 64 oed sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion lles fesul 1000 o'r boblogaeth = **12.99** Targed = 9><11
- Nifer y gofalwyr (dros 18 oed) a gafodd asesiad gofalwr yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn = **655** Targed = 600
- Canran y bobl sydd wedi cwblhau rhaglen ailalluogi, gan dderbyn llai o ofal neu ddim gofal 6 mis ar ôl i'r ailalluogi ddod i ben = **82.6%** Targed = 75%
- Canran yr holl ddangosyddion statudol ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion y maent wedi cynnal neu wella eu perfformiad ers y flwyddyn flaenorol = **78%** Targed = 85%
- Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod = **91.9%** Targed = 90%
- Cyfradd gohirio trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn = **5.86** Targed = 4
- Nifer y ceisiadau newydd am gydlynw ardaloedd lleol = **259** Targed = 240
- Canran yr oedolion sy'n fodlon ar eu gofal a'u cefnogaeth (Mesur 13: oedolion) = **79.65%** Targed = 70%
- Canran y gofalwyr y maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi (Mesur 15) = **66%** Targed = 60%
- Hyd cyfartalog arhosiad (diwrnodau) mewn gofal preswyl (Mesur 21) = **921.8** o ddiwrnodau
- Oedran cyfartalog (blynyddoedd) wrth gael eu derbyn i ofal preswyl (Mesur 22) = **83.7 oed**

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion hefyd wedi ymgynghori ar gyfres o amcanion y gwasanaeth (Chwefror 2018) sydd wedi cyfeirio Rhaglen Wella 2018-21 (gweler atodiad 2).

2C) **BLAENORIAETHAU CYFFREDINOL AR GYFER GWELLA (Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL)**

Yn yr adroddiad blynyddol y llynedd, nodais fy mlaenoriaethau ar gyfer gwella safonau ein gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol a sicrhau bod ein plant a'n hoedolion mwyaf diamddiffyn yn ddiogel, ac rydym wedi gwneud cynnydd ym mhob un o'r meysydd canlynol:

- Gwella ein harfer a'n cyflwyniad - rydym wedi parhau i weithredu ffyrdd arloesol o weithio gyda phlant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd drwy fframwaith Signs of Safety ac arfer oedolion. Mae

gan ddinasyddion lais cryfach wrth drafod yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u gwasanaethau.

- Diogelu - rydym wedi adolygu'r trefniadau diogelu presennol ac mae gennym gynlluniau ar waith i weithredu newidiadau i strwythurau timau, llywodraethu corfforaethol a pholisi.
- Partneriaeth ranbarthol - rydym wedi cryfhau trefniadau'r bwrdd rhanbarthol er mwyn cyflwyno rhaglen waith sy'n seiliedig ar Gynllun Ardal Bae'r Gorllewin ac i ddatblygu'r syniad o gyfuno iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gweithlu - rydym yn parhau i ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol drwy drefniadau lleol a rhanbarthol er mwyn diwallu anghenion hyfforddi'r dyfodol, a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Comisiynu - drwy gyd-lunio a chodi taliadau tecach yn y Gwasanaethau i Oedolion, rydym yn ailfodelu darpariaeth gofal cartref a chynlluniau i ail-lunio gwasanaethau preswyl mewnol a gwasanaethau dydd a'r defnydd o gynigion taliadau uniongyrchol ac eiriolaeth ar draws y gwasanaeth cyfan.
- Gofalwyr - rydym yn gwella cefnogaeth i ofalwyr ac yn datblygu ymagwedd gomisiynu newydd sy'n seiliedig ar gydgyhyrchu.
- Perfformiad - mae cynlluniau i weithredu WCCIS er mwyn rheoli gwybodaeth yn well ac i werthuso effaith cefnogaeth ataliol, gwasanaethau gofal wedi'u rheoli ac i nodi tueddiadau'r dyfodol.

Ar y cyfan, rwy'n falch iawn bod Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe'n gweithio'n agos ac yn gadarnhaol gyda chydweithwyr ar draws y cyngor mewn gwasanaethau megis Addysg, Tlodi a'i Atal, Adnoddau a'r Gwasanaethau Cyfreithiol; o fewn bwrdd partneriaeth rhanbarthol sy'n cynnwys BIPABM, Cynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr; ac yn bwysicach oll, gyda dinasyddion er mwyn cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithiol i'r bobl fwyaf ddiameddiffyn.

Rwy'n arbennig o falch bod Rhaglen Ranbarthol Bae'r Gorllewin wedi'i chydabod am ei gwaith gwyb. Enillodd y rhaglen ddwy wobwr yng ngwobrau blynyddol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (CGPCG) 2018: 'Menter Llywodraeth Leol Orau' a 'Chyflawni Diben Cyffredin' ar gyfer ei Rhaglen Gomisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth sy'n gwella ansawdd a safonau gofal ar draws y rhanbarth wrth ddangos gwerth am arian.

Rydym wedi nodi nifer o flaenoriaethau strategol yng Nghynllun Ardal Bae'r Gorllewin ar gyfer Iechyd a Lles 2018-2023:

<http://www.westernbay.org.uk/areaplan/>

Mae'r blaenoriaethau o ran gwelliannau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cyd-fynd yn agos â'r blaenoriaethau rhanbarthol newydd hyn.

Blaenoriaethau cyffredinol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn i ddod

- Diogelu pobl ddiameddiffyn

- Cyflwyno rhaglenni gwella'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion
- Cyflawni safle ariannol gynaliadwy
- Datblygu arfer gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol rhagorol
- Gweithio ar y cyd a gwaith integredig o ran iechyd a gofal cymdeithasol drwy waith partneriaeth rhanbarthol

Ar ran Aelod y Cabinet dros Les, y Cynghorydd Mark Child a minnau, hoffem ddiolch i'n holl ddefnyddwyr gwasanaeth a'n dinasyddion am fod yn amyneddgar ac am ddeall wrth i ni weithredu gwelliannau i wasanaethau, ac i'n holl staff am eu hymdrechion wrth gefnogi pobl ddiameddiffyn yn Abertawe'r llynedd.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, mae'r Cabinet wedi penderfynu cynyddu nifer yr Aelodau Arweiniol sy'n rhan uniongyrchol o gefnogi ein rhaglenni gwella ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r deiliaid portffolio newydd:

Y Cynghorydd Mark Child, bellach yn Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda,

Y Cynghorydd Elliot King, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant - Blynyddoedd Cynnar

Y Cynghorydd Will Evans – Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant - Pobl Ifanc

Gyda'n gilydd rydym yn gwrandao ar leisiau'r dinasyddion ym mhob maes o'n gwaith, a byddaf yn ehangu ar ymagwedd Abertawe tuag at roi'r person wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

3. SUT MAE POBL YN LLYWIO GWASANAETHAU

Mae'n rhaid i bawb, boed yn oedolyn neu'n blentyn, gael llais, cyfle a hawl i gael eu clywed fel unigolyn a dinesydd er mwyn llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael rheolaeth dros eu bywydau pob dydd.

Rydym yn parhau i fynd ati i geisio adborth gan unigolion, teuluoedd a gofalwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain ac mae eu barn yn helpu i gyfeirio ein taith welliant.

Mae'r sgwrs 'Yr hyn sy'n bwysig i chi' bellach yn ganolog i sut rydym yn gweithio ac mae'n rhan o asesiad unigol ar draws y gwasanaeth cyfan.

Mae ein hymagweddau at gydgynhyrchu a chyfranogiad yn llywio ein canllawiau arfer a'n strategaethau comisiynu.

Yn yr adran hon, byddaf yn crynhoi'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, yr hyn rydym wedi'i wneud mewn ymateb a rhai straeon am lwyddiant er mwyn adlewyrchu ymagwedd newydd Abertawe tuag at ofal cymdeithasol. I orffen, byddaf yn rhannu un neu ddau o'r canmoliaethau niferus mae ein staff wedi'u derbyn dros y flwyddyn o ganlyniad i'w gwaith caled a'u diwydrwydd.

ADBORTH ELENI

Rydym yn cynnal arolwg ansoddol bob blwyddyn, gan ddefnyddio sampl fawr o bobl sydd wedi bod yn derbyn gofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dyma rai o'r prif newidiadau:

- Mae 51.4% o bobl yn adrodd eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, sy'n cynrychioli cynnydd o 5% ar 2016/17 (Mesur 2).
- Mae 78.1% o bobl yn teimlo'n ddiogel, cynnydd o 3.4% (Mesur 3).
- Mae 58.3% o bobl yn adrodd eu bod yn teimlo'n rhan o'r gymuned, sy'n well (12%) na chyfartaledd Cymru (Mesur 4).
- Roedd 85% o bobl yn fodlon ar eu rhwydweithiau cymdeithasol, eto mae hyn yn gynnydd o 8% ar y llynedd (Mesur 5).
- Mae 85% o bobl yn fodlon ar y gofal a'r gefnogaeth y maent wedi'u derbyn, sy'n cynrychioli cynnydd o 8% ar y llynedd (Mesur 13).

Cyflwynir dadansoddiad manylach yn **Atodiad 1**.

YR HYN RYDYM WEDI'I WNEUD

Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella ansawdd a chodi safonau gofal o fewn ein gwasanaethau a gomisiynwyd a'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol. Yn ystod fy ymweliad â'r gwasanaethau, roeddwn yn edmygu ymdrechion dychmygus ein staff i wella profiad bywyd defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei wneud:

- Mae wedi dod i'n sylw ei bod hi'n hanfodol gwella'r integreiddiad rhwng ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gan bobl hŷn ac oedolion diamddiffyn fynediad amserol a chymesur i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt gan y person cywir ar yr amser cywir.
- Mae gan Abertawe dair ganolfan hen-sefydledig, integredig, amlasiantaeth (Canolog, Gogledd a'r Gorllewin) sy'n cynnwys Abertawe gyfan er mwyn darparu ymateb lleol gyda chymorth ac asesiad medrus a phroffesiynol.
- Mae Pwynt Mynediad Cyffredin y Gwasanaethau i Oedolion a thîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd yn sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at gymorth effeithiol ac amserol wrth ganfod yr hyn sydd ar gael er mwyn diwallu eu hanghenion gofal a chefnogaeth eu hunain.
- Mae gan Abertawe, fel partneriaid eraill Bae'r Gorllewin, Dîm Cefnogi Dementia cymunedol sy'n darparu diagnosis cynnar ac ymyriadau medrus sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer pobl a theuluoedd y gallant gael trafferth wrth gael mynediad i wasanaethau gofal fel arall.
- Mae Strategaeth Cyfranogiad a Chydgynhyrchu newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ceisio hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd cyfranogiad a chyfranogaeth. Arolwg Bright Spots. Mae'r arolwg 360 gradd yn derbyn adborth gan blant sy'n derbyn gofal am safon y lleoliadau sydd wedi'u comisiynu'n annibynnol. Mae gwaith stori bywyd gyda phlant sy'n derbyn gofal yn helpu i gefnogi sefydlogrwydd. Mae pobl ifanc yn cadeirio'r cyfarfodydd lle caiff cynlluniau gofal eu trafod.
- Drwy gymuned gydgyhyrchiol sydd yn cefnogi datblygiad strategaethau a chynlluniau comisiynu, rydym bellach yn ymgorffori cynnwys dinasyddion yn nyluniad a chyflwyniad gwasanaethau newydd a datblygiad pellach ein marchnad gofal cymdeithasol leol. Arweiniodd yr ymagwedd hon yn uniongyrchol at ddatblygu ein fframwaith byw â chymorth newydd.
- Rydym yn hwyluso mwy o 'Eiliadau Hudol' yn ein cartrefi gofal er mwyn cynyddu llawenydd a chwerthin ar gyfer preswylwyr, teuluoedd, ffrindiau a staff (mewn partneriaeth ag Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Prifysgol Abertawe).
- Cyrhaeddodd ein Gwasanaeth Datblygu Gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol y rhestr fer yng Ngwobrau Cyflawniad y Municipal Journal (MJ) y llynedd am ei ragoriaeth wrth gynnwys y gymuned.
- Sgwrs Fawr y Gyllideb oedd y 5ed ymgynghoriad blynyddol a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn ystyried cynigion cyllidebol Cyngor Abertawe gan gynnwys gofal cymdeithasol. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i **80** o ddisgyblion o 12 ysgol uwchradd ar draws Abertawe ystyried nifer o gynigion cyllidebol a gyflwynwyd

gan Gyngor Abertawe er mwyn mynd i'r afael â'r her o gynladwyedd ariannol.

- Ceisiodd y cyngor adborth gan y boblogaeth ehangach ar y cynigion cyllidebol, gan gynnwys y rheiny mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae **87%** o ddinasyddion Abertawe'n cytuno y dylem adolygu pecynnau gofal newydd a phresennol yn unol â gofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Sefydlwyd Panel Rhanbarthol y Dinasyddion Bae'r Gorllewin ym mis Chwefror 2016, gyda'r nod o ddarparu llais strategol cryf i gynrychiolwyr dinasyddion ac roeddent yn chwarae rôl allweddol wrth bennu'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Ardal newydd.
- Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o bolisi Codi Tâl y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys cyflwyniad arfaethedig taliadau newydd am wasanaethau dydd a seibiant yn y cartref, rydym wedi bod yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau o ddinasyddion i ddeall goblygiadau'r cynigion cyllidebol hyn yn well gyda'r newidiadau a wnaed er mwyn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon, yn enwedig wrth ystyried y ffordd orau i'w gweithredu.

Y Flwyddyn O'n Blaenau:

Rhoddir cyfle i breswylwyr, defnyddwyr gwasanaethau dydd a phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a reolir gan y cyngor yn Abertawe i helpu i lywio dyfodol gwasanaethau gofal cymdeithasol hanfodol drwy ymgynghori ar gynlluniau i newid ein model gwasanaeth presennol; sef rhan o raglen trawsnewid ehangach Abertawe Gynaliadwy.

Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd digwyddiad cynnwys rhanddeiliaid enfawr er mwyn cefnogi'r adolygiadau comisiynu ym meysydd:

- Gwasanaethau preswyl i bobl hŷn
- Gwasanaethau dydd i bobl hŷn

Ym mis Ebrill 2018, cytunodd y Cabinet ar ymgynghoriad 12 wythnos i'r cyhoedd a'r staff ar gynigion manwl i drawsnewid gwasanaethau gofal preswyl a dydd er mwyn diwallu anghenion dibyniaeth uwch a gofal cymhleth/dementia pobl hŷn yn well.

Mae amrywiaeth eang o sylwadau a dderbyniwyd gan oedolion, plant, rhieni a gofalwyr fel rhan o Arolwg Ansoddol Mesurau Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol 2017-18 wedi'u crynhoi, eu cyfundrefnu (cadarnhaol, niwtral a negyddol) i'w dadansoddi er mwyn cefnogi gwelliannau'r dyfodol.

Sampl o sylwadau: Mesur 13

Rwy'n hapus gyda'r gofal a'r gefnogaeth rwyf wedi'u derbyn (derbyniwyd 95 o sylwadau)

Mae **ymatebion cadarnhaol** yn cynnwys:

- Yr holl staff yn ardderchog, cwmni dosbarth cyntaf

- Mae gweithwyr Cyngor Abertawe yn wych; bob amser yn hapus, yn deall ac yn gynorthwyol.
- Mae holl ofalwyr Tîm X yn wych ac maent yn treulio cymaint o amser ag sydd ei angen wrth ddiwallu fy anghenion dyddiol. Maent yn rhoi'r ansawdd bywyd gorau posib i mi

Mae'r **ymatebion niwtral** yn cynnwys:

- Mae mwyafrif y gofalwyr yn dda iawn, ond maent yn newid swyddi cyn gynted ag yr ydych yn dod i'w hadnabod oherwydd yr oriau hir a'r tâl isel

- Darperir gofal da ar hyn o bryd ond mae angen mwy o help oherwydd newid mewn iechyd

Mae **ymatebion negyddol** yn cynnwys:

- Cael fy siomi gan X, wedi aros 6 mis i glywed ganddynt a dim ond ar ôl i mi gysylltu â hwy eto cefais wybod ei bod hi'n well i mi ddatrys pethau fy hun
- Diffyg sgiliau gweinyddol yn y swyddfa ofal yn effeithio ar amseriad galwadau a'r gofalwyr sy'n galw.
- Mae'r gwasanaeth gofal yn anhrefnus iawn ac nid yw'n cael ei reoli'n dda. Mae'r mwyafrif o'r ofalwyr yn dda ond nid oes trefn
- Ni fyddaf byth yn hapus yma. Rwyf wedi cael fy ngharcharu yma am 4 blynedd. Rwyf wedi teimlo'n rhwystredig ac yn drist ers bod yma.

Sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o Arolwg Ansoddol Mesurau Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol 17-18

STRAEON AM LWYDDIANT (1)

Mae **Gwasanaeth Dydd Sant Ioan** yn cefnogi pobl hŷn sy'n byw ag anghenion cymhleth, y mae llawer ohonynt yn dioddef o ddementia, ar eu pennau eu hunain, gydag ychydig iawn o gefnogaeth neu ddim gefnogaeth o gwbl gan deulu a dim rhyngweithio cymdeithasol heblaw am eu hymweliad wythnosol â'r gwasanaeth dydd. Er mwyn cysylltu â'n cymuned leol ac i aelodau gael rôl fuddiol ynddi, mae'r staff wedi bod yn gweithio ar y cyd ag Eglwys Ddiwygiedig Unedig Christwell i gynnig cyfleoedd cymunedol, rhannu sgiliau a gwybodaeth a meithrin cysylltiadau a pherthnasoedd gwerthfawr. Mae hwn y brosiect arloesol mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys elusen digartrefedd Caerlas, cludiant cymunedol DANSA a gwasanaethau prawf a Sefydliad ROOTS Cymru. **Cynigiwyd gan Gyngor Abertawe am wobr - SCW.**

STRAEON AM LWYDDIANT (2)

Eiliadau Hudol - nid yw rhai o'r pethau gorau sy'n digwydd mewn gofal cymdeithasol yn rhan o'r cynlluniau gofal - maent yn 'eiliadau hudol' sy'n cynnwys taith tuag at gyflawni canlyniadau, gweithgareddau ystyrlon, perthnasoedd o fewn y gwasanaeth, cynnwys defnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a staff.

Gallant gynnwys pethau 'mawr' megis ail-greu profiad o'r gorffennol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth neu bethau 'bach', megis aelod o staff yn gwneud cysylltiad personol â rhywun sydd ag anhawster siarad oherwydd dementia, eu hanabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl.

Canfu prosiect ymchwil gan Brifysgol Abertawe pan rennir y straeon 'eiliadau hudol' hyn, maent yn ysbrydoli ac yn annog eraill i deimlo'n dda am eu gwaith ac i greu eu 'heiliadau hudol' eu hunain. Mae Jane Thomas, Rheolwr Gwasanaeth, gyda chymorth Cathy Murray, Prif Swyddog ar gyfer darpariaeth gwasanaeth yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gydgyhyrchu a chasglu 'eiliadau hudol' o Wasanaethau i Oedolion Abertawe mewn llyfryn y gellir ei ddefnyddio fel adnodd dysgu.

Mae llawer o'r rhain eisoes wedi'u rhannu yn nigwyddiadau diweddar staff y Gwasanaethau i Oedolion.

STRAEON AM LWYDDIANT (3)

Mae'r bechgyn wedi elwa (fel y mae eu chwiorydd) o wasanaeth a chefnogaeth gynhwysfawr, sensitif, ragweithiol ac ymatebol gan eu gweithiwr cymdeithasol dynodedig, E...

Mae E wedi bod yn gweithio'n ddifflino er mwyn cyflawni holl ddymuniadau a theimladau'r brodyr a chwiorydd ond mae hi hefyd wedi sicrhau ei bod wedi meithrin perthnasoedd cynhyrchiol a digyfaddawd â'r teulu biolegol ac wedi defnyddio cryfderau teulu estynedig i gynyddu cyswllt ac i sicrhau eu bod yn yn cael eu monitro a bod anghenion y plant o ran eu barn a'u teimladau'n cael eu bodloni.

Diolch yn fawr - adborth gan Swyddog Adolygu Annibynnol

CANMOLIAETHAU A DDERBYNIWYD

Rydym yn parhau i gasglu canmoliaethau, sylwadau a chwynion yn rheolaidd ac yn adrodd i'r tîm craffu am yr adborth yn rheolaidd fel rhan o'n hymagwedd ar y cyfan tuag at sicrhau ansawdd, gan gynnwys drwy adroddiad blynyddol.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cydnabod unrhyw ganmoliaeth a dderbynnir yn bersonol yn ysgrifenedig i'r aelod o staff/tîm sy'n rhan ohono.

Wrth fonitro cwynion a chanmoliaeth, rydym yn chwilio am dystiolaeth o adborth sydd naill ai yn atseinio neu'n wrth-ddweud ein taith wella.

"Bore eithaf emosiynol heddiw gyda'm gofalwyr, roedd dagrau hapus a thrist. Rwy'n hapus eu bod nhw'n credu fy mod i'n gwneud yn dda ac nid ydynt yn teimlo bod angen iddynt alw heibio neu fy nhrosglwyddo i asiantaeth bellach..... Rwy'n ymwybodol bod gennyf daith hir o'm blaen o ran gwella ond nid wyf yn berson sy'n gallu eistedd o gwmpas drwy'r dydd yn gwastraffu fy mywyd. Rwy'n gallu cerdded a siarad ac mae gennyf brofiad personol o strociau felly rwyf am ddefnyddio fy mhrofiad i helpu eraill. Heb y bobl gadarnhaol a oedd o fy amgylch, ni fyddwn i wedi magu'r hyder i wneud yr hyn rwy'n bwriadu ei wneud, felly hoffwn ddiolch i'r tîm adfer gwych, rwy'n mynd i

golli'r chwerthin yn y boreau a'ch anogaeth, bydd eich geiriau'n aros yn fy nghof am byth."

(Adborth gan ddefnyddiwr gwasanaeth yn myfyrio ar ei thaith a'r cefnogaeth wych a ddarparwyd gan ein gwasanaethau gofal cartref, ailalluogi a therapi galwedigaethol) -

'diolch yn fawr iawn am wneud i mi ddisgleirio fel seren'

(Llythyr at weithiwr cymdeithasol plentyn)

Mae angen i weithwyr cymdeithasol eich deall a chael ffydd ynddoch, fel arall nid oes unrhyw bwynt. Roedd gweithiwr cymdeithasol K yn arfer gofyn sut roeddwn yn teimlo, gofyn am fy nheulu, ac roedd yn ddi-lol - roedd yn dweud 'dyma sy'n mynd i ddigwydd' a 'dyma beth rwyf am iddo ddigwydd'. Roedd gan M ffydd hefyd, roedd e'n wych. Dywedodd e' wrtha i fy mod i'n fam wych a byddwn yn llwyddiannus yn yr asesiad mam a babi. Roedd yn fy helpu i wybod ein bod yn gwneud yn dda a bod hynny'n cael ei gydnabod. Roedd yn dda gwybod ein bod yn gwneud yn dda ac nid yn ddrwg. Roedd wedi ein helpu i'n hysgogi ac roedd gennym fwy o hyder. Os oedd unrhyw bryderon, roeddent yn agored ac yn onest ac roedd yn bosib gwneud newidiadau oherwydd hynny'.

(Ymchwiliad gwerthfawrogi a gynhaliwyd gyda rhiant ifanc)

'Nid yw fy mab yn rhannu ei deimladau â llawer o bobl ond mae'n teimlo bod hynny'n bosib wrth siarad â L am ei fod yn gyfforddus o'i chwmpas ac mae hi'n wych gydag ef. Teimlaf fyd mod i'n gallu siarad â hi am unrhyw beth hefyd ac mae hi bob amser yn gwrandao ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud. Mae Gweithiwr Cymdeithasol L wedi gwneud fy amser gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bleserus, rhywbeth nad oeddwn i byth yn meddwl y byddwn i'n ei ddweud.'

(Canmoliaeth gan riant/ofalwr)

'Rwy'n meddwl bod y ffordd roedd Gweithiwr Cymdeithasol R wedi gweithio gyda T ar nos Wener yn haeddu canmoliaeth. Anaml mae unrhyw un yn canmol, ond roedd wedi paratoi'n dda, roedd y lluniau a'r geiriau'n dda ac roedd wedi helpu T i ddeall. Gwiriodd a oedd yn deall, fe eglurodd popeth ddwywaith, dangosodd empathi a thosturi tuag at y sefyllfa, buom yn creu amserlen gyda'n gilydd ar gyfer T ac, er ei bod yn 8.30pm ar nos Wener, doedd e ddim mewn unrhyw frys. Mae'n rhaid i mi ddweud, rwyf wedi bod yn ofalwr maeth ac wedi gweithio yn y maes hwn am flynyddoedd a dyma un o'r ymweliadau gorau, mwyaf tosturiol a defnyddiol rwyf wedi'u gweld erioed.'

(Canmoliaeth gan ofalwr maeth)

'Roeddwn i am dynnu'ch sylw at fy mharch a'm gwerthfawrogiad o'r ffyrdd yr ymdrinnir â'r achosion hyn. Rwy'n teimlo yr ymdrinnir â'r sefyllfaoedd a allai fod wedi bod yn rhai anodd iawn mewn modd proffesiynol ac yn effeithiol. Rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi gan y gweithwyr cymdeithasol a bod anghenion a diogelwch y plant wedi'u rheoli'n ddiogel ac yn broffesiynol. Mae

gennyf barch mawr at y ddarpariaeth a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac rwy'n edmygu'r ffordd y maent wedi rheoli'r achos penodol hwn.'

(adborth gan Bennaeth yn Abertawe)

4. HYRWYDDO A GWELLA LLES Y BOBL RYDYM YN EU HELPU (SAFONAU ANSAWDD)

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o ansawdd a pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ystyried y Fframwaith Safonau Cenedlaethol: [Côd Ymarfer mesur perfformiad](#) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (ei nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru - drwy helpu i greu lle rydym i gyd am fyw ynddo; nawr ac yn y dyfodol).

Y chwe Safon Ansawdd Cenedlaethol yw:

SAC 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

SAC 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

SAC 3: Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cam-driniaeth, esgeulustod neu niwed

SAC 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi yn y gymdeithas

SAC 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

SAC 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni lles economaidd gwell a chael bywyd cymdeithasol. Mae'n cynnwys y canlyniadau a ddisgwylir, yr hyn rydym yn ei wneud, pa mor dda rydym yn ei wneud a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

4A) GWEITHIO GYDA PHOBL I DDIFFINIO A CHYDGYNHYRCHU CANLYNIADAU LLES PERSONOL Y MAE POBL AM EU CYFLAWNI (SAC1)

Mae'r safon hon yn disgwyl y bydd dinasyddion Abertawe'n ymwybodol o ba ofal, cefnogaeth a chyfleoedd sydd ar gael a bod ganddynt ddealltwriaeth ohonynt, a'u bod yn gwybod sut i ddefnyddio gwybodaeth a chynghor i helpu i gyflawni eu canlyniadau lles. Dylai bod gan bobl y gallu i gael mynediad at yr wybodaeth gywir ar yr amser cywir, yn y ffordd maent am gael yr wybodaeth, a defnyddio hyn i reoli a gwella eu lles. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod llais y dinasyddion wrth wraidd ein taith i wella gwasanaethau ac, yn enwedig, bod pob unigolyn yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ffordd orau o fodloni eu hanghenion gofal a chefnogaeth.

Mae ein hymagwedd at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi'i nodi yng Ngwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Abertawe - arweiniad ar gyfer ymarferwyr a lansiwyd ym mis Ionawr 2018.

Beth oedd ein cynlluniau y llynedd?

- Abertawe i barhau i ychwanegu at Gyfeiriadur Lles DEWIS CYMRU gyda'r bwriad o'i lansio i ddinasyddion ar ddiwedd 2017/18.
- Gweithredu argymhellion o adolygiadau comisiynu'r cyngor o ran cefnogaeth i deuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau i'r rheiny dan 11 oed, dros 11 oed a phlant ag anableddau ac adolygiadau o ofal cartref, gofal preswyl a gwasanaethau dydd.
- Cwblhau Fframwaith Arfer y Gwasanaethau i Oedolion
- Rhoi'r model adennill gwaith cymdeithasol ar waith yn y Gwasanaethau Plant
- Parhau i gefnogi Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol ranbarthol Bae'r Gorllewin, y bydd canlyniad yr asesiad poblogaeth rhanbarthol bellach yn cyfeirio'i datblygiad.
- Cynnwys a defnyddio'r Fframwaith Byw â Chymorth ymhellach
- Lansio'r Gwasanaeth 16+ newydd a'r Ganolfan Trais Domestig yn swyddogol.

Pa mor llwyddiannus oeddem a pha wahaniaeth a wnaed gennym?

Rydym yn sicrhau bod gan bobl fynediad hawdd at y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir pan fo'u hangen arnynt, yn y ffordd maent am eu cael a defnyddio hyn i reoli a gwella eu canlyniadau lles drwy:

- **Ymagwedd Abertawe at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth** - Yn Abertawe, rydym yn gwahaniaethu rhwng Ymagwedd Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, lle gall pobl gael help gan amrywiaeth o wasanaethau cymunedol a byd-eang, a'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Mae Cyngor Abertawe'n cydnabod pwysigrwydd cael ein trefniadau drws blaen ar gyfer lles yn gywir, drwy ddatblygu ymwybyddiaeth gorfforaethol well ar gyfer y cyfraniadau y gall holl wasanaethau'r cyngor eu gwneud i les dinasyddion, a rheoli rhyngwyneb drws blaen iechyd a gofal cymdeithasol statudol.

- **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Abertawe o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol** - Mae drws blaen effeithiol, cynnes yn rhan bwysig o system ofal gynaliadwy, ddiogel sy'n sicrhau bod y bobl gywir yn cael yr help cywir gan yr unigolyn cywir ar yr amser cywir. Mae'n ymwneud â sicrhau bod yr help ar gael gan ofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol o fewn cymunedau cryfach a bod gwasanaethau ar gael er mwyn ateb y galw. Mae ein gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi'u cyd-leoli a byddant yn gweithio gyda'i gilydd lle mae anghenion lluosog mewn teuluoedd a chydag oedolion ifanc sy'n trawsnewid.

- **DEWIS CYMRU** – Rydym yn disgwyl bod gan ddinasyddion Abertawe fynediad at wybodaeth i'w helpu i ddeall yn well yr ystod eang o gyfleoedd gofal, chefnogaeth a lles sydd ar gael i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau lles yn well a sut i ddewis ohonynt. Mae Abertawe'n parhau i gyflwyno Cyfeiriadur Lles DEWIS CYMRU ac mae'n cefnogi'r strategaeth genedlaethol i integreiddio'r system hon ag adnoddau gwybodaeth gyhoeddus mwy ddatblygedig megis Infogenie (a ddefnyddir gan y trydydd sector) a'r System Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mae dinasyddion a gofalwyr ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd am wella eu lles yn derbyn cyngor o safon ac asesiad amserol o'u hanghenion sy'n hybu eu hyder, eu dewis a'u canlyniadau personol drwy:

- **Asesiad Unigol** - Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwrandao ar bobl ac yn; defnyddio asesiad unigol sy'n canolbwyntio ar 'yr hyn sydd o bwys iddynt' a sut olwg sydd ar ddiogelwch. Mae'r ymagwedd hon, sy'n cael ei hyrwyddo drwy ein fframweithiau arfer 'Signs of Safety' a 'Cyflawni'r hyn sy'n bwysig', yn mabwysiadu methodoleg gyd-luniol a phartneriaeth sy'n rhoi plant, teuluoedd, dinasyddion a gofalwyr yn ganolog i'w gofal a'u chefnogaeth. Ymagwedd sy'n seiliedig ar gryfderau ac asedau yw hon sy'n cefnogi unigolion i gynnal eu hannibyniaeth drwy fynediad cyfatebol at ofal a chefnogaeth.
- **Cynnig Gweithredol** - Mae staff rheng flaen yn ymwybodol bod rhaid gwneud "cynnig gweithredol" i bobl er mwyn sicrhau bod dewis iaith person o ran y Gymraeg a'i ddewis iaith yn cael ei nodi'n gynnar mewn unrhyw gyswllt (yn unol â Mwy na Geiriau/More than Just Words - gweler adran 5).
- **Safonau Arfer y Gwasanaethau i Oedolion** - Rydym wedi datblygu Fframwaith Arfer i sicrhau cysondeb mewn gwaith cymdeithasol a safon ar draws y gwasanaeth. Ar yr un pryd rydym yn cyflwyno fframwaith canlyniadau i gefnogi ffyrdd newydd o weithio sy'n gosod llais y dinesydd yn ganolog i'n hymyriadau.
- **Safonau Arfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** - Mae angen i Abertawe fodloni llawer o ofynion statudol ynghylch amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a phlant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt. Mae Abertawe wedi bod ar daith bwysig mewn perthynas â gosod pob plentyn a theulu yn ganolog i gynllunio ar gyfer diogelwch a gofal drwy ymgorffori'r fframwaith Signs of Safety ym mhopeth rydym yn ei wneud. Mae arfer gwych gwaith cymdeithasol yn rhan bwysig o'n model cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod plant yn parhau i fod yn ddiogel yng ngofal eu teuluoedd ac yn cyflawni

sefydlogrwydd cyn gynted â phosib. Mae hyn yn rhan o strategaeth ehangach sy'n aiffocysu adnoddau ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn hytrach na bod ein holl adnoddau'n cael eu defnyddio i liniaru canlyniadau plant sy'n cael eu niweidio.

- **Eiriolaeth** - dylai bod y plant, y teuluoedd, yr unigolion a'r gofalwyr rydym yn gweithio gyda hwy yn bartneriaid cyfartal yn eu perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall unrhyw berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ofyn i rywun o'i ddewis ei gefnogi i fynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau. Bydd ein staff hefyd yn nodi a oes angen eiriolaeth ychwanegol o'r pwynt cyswllt cyntaf, gan gynnwys gan deuluoedd, ffrindiau neu aelodau eraill o'r gymuned. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi ail-gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol er mwyn bodloni gofynion y gwasanaeth eiriolaeth cenedlaethol.
- **Cydgynhyrchu** - Mae mwy o dystiolaeth o gynnwys plant, unigolion, gofalwyr a theuluoedd wrth gydgynhyrchu eu hasesiadau a'u cynlluniau gofal a chefnogaeth. Mae'r ymagwedd hon yn estyn i ddyluniad, datblygiad a chyflwyniad gwasanaethau newydd drwy ymagwedd Abertawe at gomisiynu a chyfranogiad.

Lle bynnag y bo'n bosib, byddwn yn sicrhau bod hyn yn golygu y bydd teuluoedd yn aros gyda'i gilydd a bod gan ofalwyr lefelau addas o gefnogaeth drwy:

- **Ymagwedd integredig at les** - Mae gan Abertawe nodau i hyrwyddo, cefnogi a meithrin lles pob plentyn, drwy Strategaeth Lles Integredig Abertawe ar gyfer plant a phobl ifanc 2018-2019.
- **Continwrm Cymorth i Deuluoedd** - Yn 2016/17, cytunodd Cabinet y cyngor ar weledigaeth Abertawe ar gyfer cyflwyno Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd ar draws y continwrm angen sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cyflawni eu canlyniadau lles. Mae hyn wedi cynnwys gwaith comisiynu ar draws y pedwar maes:
 - cefnogaeth i deuluoedd â phlant dan 11 oed.
 - cefnogaeth i deuluoedd â phlant dros 11 oed.
 - cam-drin domestig.
 - cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion ac anabledau ychwanegol.

Mae'r gwaith ym mhob un o'r meysydd hanfodol hyn wedi cynyddu eleni ac mae'r datblygiadau diweddar wedi'u nodi yn adrannau diweddarach yr adroddiad hwn.

- **Cefnogaeth i ofalwyr** - Mae Abertawe'n cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae gofalwyr yn ei wneud i les a diogelwch rhai o

ddinasyddion mwyaf diamddiffyn Abertawe. Mae gan holl ofalwyr Abertawe'r hawl i asesiad o'u hanghenion cefnogaeth sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt er mwyn cyflawni eu lles. Cydnabuwyd Abertawe am ein gwaith comisiynu effeithiol o ran cefnogi gofalwyr ac rydym yn cynnal digwyddiad rhwydwaith i ofalwyr yn rheolaidd. Mae gan Abertawe ganolfan i ofalwyr â staff ymrwymedig, cymwys a gwybodus er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau lles. Yn ogystal â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, mae'r ganolfan hefyd yn darparu cefnogaeth uniongyrchol mewn perthynas â budd-daliadau. Mae ei gwasanaethau am ddim ac yn agored i bob gofalwr. Yn dilyn asesiad o'r boblogaeth a datblygu'r Cynllun Ardal, mae angen gwaith manylach er mwyn mapio'r holl adnoddau sydd ar gael i gefnogi gofalwyr. Bydd hyn yn arwain at waith cydgynhyrchu pellach i ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr.

PERFFORMIAD YN 2017/18 (Y llynedd)

Mesurau Ansoddol: gweler atodiad 1, dadansoddiad o ganlyniadau arolwg (Oedolion)

Mesurau Meintiol:

- Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (GCaCh) ac sydd heb ailgysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn = **93.8%** (86.39%)
- Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol = **72.4%** (82%)

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Yn ystod 2018/2019, ein blaenoriaethau fydd:

- Datblygu cynllun cydgynhyrchu cyffredinol er mwyn cynnwys dinasyddion ym model a chyflwyniad y Gwasanaethau i Oedolion yn y dyfodol.
- Ehangu'r amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr drwy gydgyhyrchu cynlluniau comisiynu
- Parhau i ymgorffori fframweithiau arfer gwaith cymdeithasol i hyrwyddo ffyrdd newydd o gynnal asesiadau a chyflwyno gofal a chefnogaeth sy'n cadw pobl yn ddiogel.

4B) GWEITHIO GYDA PHOBL A PHARTNERIAID I DDIOGELU A HYRWYDDO IECHYD CORFFOROL A MEDDYLIOL A LLES EMOSIYNOL POBL (SAC1)

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau bod dinasyddion Abertawe'n derbyn y cyngor a'r gefnogaeth gywir i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt; gan gynnwys cadw eu hunain yn iach. Dylent dderbyn cefnogaeth o'r fath mor gynnar â phosib; drwy ymyriadau ataliol a chymunedol sy'n hyrwyddo annibyniaeth.

Mae ein hymagwedd wedi'i nodi yn y dogfennau canlynol:

Model Gwasanaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Abertawe:
[Staffnet Abertawe - Model Gwasanaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion.](#)

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd: Arweiniad i ymarferwyr ar sut rydym yn gweithio gyda theuluoedd.

Beth oedd ein cynlluniau y llynedd?

- Sicrhau bod amrywiaeth da o wasanaethau ataliol yn cael eu datblygu
- Datblygu'r Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC) integredig, sydd wedi'i gefnogi gan dîm amlddisgyblaeth a broceru trydydd sector, er mwyn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i oedolion a gofalmwyr
- Rhoi strwythur adennill gwaith cymdeithasol newydd ar waith yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Cwblhau'r Fframwaith Arfer Gwaith Cymdeithasol yn y Gwasanaethau i Oedolion
- Ymateb i adborth yn sgîl Arolygiad ar y cyd gan AGIC/AGGCC o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

Pa mor llwyddiannus oeddem a pha wahaniaeth a wnaed gennym?

Rydym wedi annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd corfforol a'u lles eu hunain ac i wneud y pethau sy'n eu cadw'n iach.

- **Ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau i hyrwyddo lles** - Mae Abertawe'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd, gwasanaethau eraill y cyngor a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd atal ac ymyrryd yn gynnar ar gael cyn bod angen i blant, teuluoedd, unigolion a gofalmwyr gael mynediad at gefnogaeth statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyniad Cydlynu Ardaloedd Lleol a datblygiad y Continwrm Cymorth i Deuluoedd. Nodwyd strategaeth glir i wella ataliaeth ym Model Cyflwyno'r Gwasanaethau i Oedolion a model y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer y dyfodol. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod egwyddorion ataliaeth, ymyrryd yn gynnar a chydgyhyrchu'n cael eu hymgorffori yn ein hymagwedd gyfan at gyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol.
- **Ataliaeth** - Gan adeiladu ar Strategaeth Atal Bae'r Gorllewin, mae Cyngor Abertawe wedi datblygu Strategaeth Atal Gorfforaethol sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio'n eang ar gefnogi datblygiad cymunedau cryfach, sy'n gysylltiedig ag adfywio economaidd, hyrwyddo cadernid cymunedau yn y dyfodol ac annibyniaeth a lles dinasyddion. Ein hamcan yw i gyflwyno mwy o wasanaethau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion pobl ac yn hyrwyddo canlyniadau gwell.

- Ymagwedd sy'n seiliedig ar gryfderau yw **Cydlynu Ardaloedd Lleol**, â'r nod o gefnogi pobl ddiamddiffyn mewn cymunedau drwy ganolbwyntio ar yr hyn y mae bywyd da'n ei olygu iddynt, adeiladu rhwydweithiau cymunedol o gefnogaeth hunangynaliadwy; gyda'r rhagdybiaeth y bydd gan unigolion y mae angen cefnogaeth arnynt hefyd rywbeth i roi yn ôl i'r gymuned (defnyddio'r cysyniad o gilyddiaeth) ac, o ganlyniad, leihau mynediad at ddulliau traddodiadol o ymyriad statudol. Rydym wedi diwygio'r ardaloedd daearyddol lle gall ein rhaglen cydlynu ardaloedd lleol gael ei chyflwyno orau ac, o ganlyniad, dim ond 22 o gydlynwyr sydd eu hangen i gwmpasu Abertawe gyfan. Rydym yn bwriadu ehangu hyn i gynnwys 11 o'r ardaloedd gofynnol dros y flwyddyn sydd i ddod.

Gall pobl ddisgwyl y gofal a'r gefnogaeth gywir mor gynnar â phosib drwy amrywiaeth o gefnogaeth ataliol yn y gymuned sy'n hyrwyddo annibyniaeth:

- **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** - Rydym wedi lansio ein gwasanaethau drws blaen newydd ag arweiniad cysylltiedig ar gyfer ymarferwyr, gan wreiddio ymagwedd gyson ar draws y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant a Theuluoedd. Roedd amrywiaeth o randdeiliaid yn bresennol yn y digwyddiad lansio er mwyn hyrwyddo ymrwymiad eang i gefnogi'r ymagwedd Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Mae gennym bellach **Bwynt Mynediad Cyffredin** fel rhan o'n model gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i oedolion a gofalwyr, wedi'i gefnogi gan dîm amlddisgyblaeth a broceriaeth trydydd sector, sy'n sicrhau gwybodaeth, cyngor a chymorth cymesur sy'n seiliedig ar gryfderau ar yr amser cywir, gan y person cywir.
- **Ymagwedd amlddisgyblaethol** - Mae gan y Gwasanaethau i Oedolion gymysgedd gwell o waith cymdeithasol, therapi, niysys ardal a gweithwyr proffesiynol o'r trydydd sector wedi'u cyd-leoli o fewn pwynt mynediad cyffredin er mwyn ymateb i bobl ag anghenion gofal a chefnogaeth mwy cymhleth.
- **Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** - Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, mae un pwynt cyswllt ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'r holl blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer pobl ifanc 16 i 17 oed sy'n seiliedig ar InfoNation, wedi'i gyd-leoli gydag amrywiaeth o wasanaethau eraill i bobl ifanc. Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Abertawe'n ymrwymedig i ddefnyddio systemau cyfan y model arfer Signs of Safety. Mae'r ymagwedd flaengar hon at waith achosion amddiffyn plant yn seiliedig ar gryfderau, wedi'i threfnu i ystyried diogelwch ac wedi'i gwreiddio mewn partneriaeth a chydweithredu. Mae'r ymagwedd hon at gynllunio diogelwch yn rhagweithiol wedi'i gwreiddio yn ein gwasanaeth Gwybodaeth,

Cyngor a Chefnogaeth a'n prosesau gwneud penderfyniadau wrth y drws blaen. Fel rhan o waith y Continwmm Cymorth i Deuluoedd, rydym yn cynnal adolygiad meddwl drwy systemau wedi'i gefnogi gan Vanguard er mwyn ystyried y trefniadau presennol a'r rhyngweithiad â'r Gwasanaethau Cymorth Cynnar. Mae hyn gyda'r nod o ddatblygu pwynt mynediad unigol i alluogi plant a theuluoedd i dderbyn y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir ac i wneud y broses yn haws i asiantaethau partner.

Gall pobl ddisgwyl y gofal a'r gefnogaeth gywir mor gynnar â phosib drwy amrywiaeth o gefnogaeth ataliol a gwasanaethau yn y gymuned sy'n hyrwyddo annibyniaeth.

- **Gwasanaethau wedi'u hailfodelu** - Mae Bonymaen House wedi cael ei ailfodelu fel gwasanaeth i gyflwyno agwedd allweddol model gorau posib Bae'r Gorllewin ar gyfer gofal canolradd. Drwy gymysgedd aml-broffesiwn o weithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, therapyddion a gofalwyr therapi, mae'r uned breswyl yn darparu gwasanaeth 'Camu i Fyny/ Camu i Lawr' gyda chefnogaeth a gyfyngir o ran amser sy'n mynd yn ôl i'r gymuned. O'r bobl hynny sydd wedi cael mynediad llwyddiannus i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, mae mwy na 60% wedi'u cefnogi'n llwyddiannus i fyw gartref yn ddiogel gyda gofal a chefnogaeth tymor hir wedi'u lleihau neu ddim gofal a chefnogaeth o gwbl.
- **Seibiant** - Mae ein gwasanaethau seibiant megis Tŷ Cila, Heol Alexandra a seibiant yn y cartref yn darparu cefnogaeth seibiant hanfodol i unigolion ag anghenion cymhleth a'u gofalwyr.

Mae gennym wasanaethau mynediad wedi'u gwella er mwyn cynnal iechyd corfforol, iechyd meddyliol a lles emosiynol drwy:- **Ein cynllun Lles** - Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi creu Cynllun Lles 2018-23, wedi'i ddatblygu o asesiad poblogaeth o les yn 2017. Mae gan yn cynllun bedwar prif amcan:
 - Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod
 - Gwneud Abertawe'n lle gwych i fyw a heneiddio'n dda
 - Gwella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hól troed carbon
 - Grymuso ein cymunedau i hyrwyddo balchder a pherthyn.
- **Ail-Iunio cynllunio Gofal â Chymorth** - Ym mis Mai 2018, bydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Abertawe'n lansio strwythur 'adennill gwaith cymdeithasol' i wella effeithlonrwydd a chanlyniadau ein gwaith gyda theuluoedd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys arfer gwaith cymdeithasol wedi'i gyflwyno drwy unedau bach, gan weithio'n systematig gyda theuluoedd. Mae Cyngor Abertawe wedi

cefnogi'r newidiadau drwy fuddsoddiad ychwanegol mewn swyddi arweinyddiaeth arfer a chefnogaeth busnes wedi'i hail-lunio.

- **Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig** - Mae timau gwaith cymdeithasol ar y rheng flaen yn y Gwasanaethau i Oedolion wedi'u trefnu o gwmpas gweithio amlddisgyblaeth, e.e. timau Gwaith Cymdeithasol Ysbytai, timau Iechyd Meddwl Cymunedol a thimau Cefnogaeth Cymunedol i pobl ag anableddau dysgu. Ar gyfer oedolion hŷn, mae'r model integredig hwn yn cael ei hyrwyddo gan dri hwb iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- **Llwybrau gofal integredig** - Gan weithio tuag at fodel gorau posib Gwasanaethau Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, mae gennym ymagwedd sefydledig tuag at gyflwyno gwasanaethau gofal canolradd, integredig sy'n cefnogi ataliaeth, nodi'n gynnar a rheoli risgiau drwy ymyriadau a dargedir, ailsefydlu ac ailalluogi. Mae'r ymagwedd wedi sicrhau bod llawer mwy o bwyslais ar asesu a chynllunio o ran gofal a chefnogaeth ar gyfer canlyniadau. Mae dinasyddion yn profi ymatebion fwy syml a chyson i geisiadau am gefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae heriau'n dal i fod o ran pan fydd y galw am y gwasanaethau arloesol hyn yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael mewn gwasanaethau craidd mwy traddodiadol, gan gynnwys therapyddion, nyrsys ardal a gofal cartref.
- **Adolygiadau comisiynu** - Mae pob un gwasanaeth gofal cymdeithasol mewnol yn Abertawe wedi bod, neu'n parhau i fod, yn destun adolygiadau comisiynu i sicrhau cysondeb â model gorau posib cyflwyno cytunedig y Gwasanaethau i Oedolion.
- **Iechyd Meddwl Cymunedol** - Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol cychwynnol yn dilyn archwiliad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru/Arolygiaeth Iechyd Cymru o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn Stryd y Berllan, Abertawe, ac mae cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gwelliannau pellach wedi dechrau.

Rydym wedi hyrwyddo a chefnogi ffyrdd iach o fyw drwy:

- **Fodel Gofal Canolradd Gorau Posib** - Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn gweithredu model newydd o ofal canolradd i helpu pobl i aros gartref, lleihau'r risg o unigolion yn colli eu hannibyniaeth a chefnogi unigolion y mae angen help ychwanegol arnynt i fagu hyder wrth adael yr ysbyty. Mae gennym bellach dimau gofal iechyd a chymdeithasol yn gweithio mewn ardaloedd lleol i wella safon yr ymateb i'r cynnydd yn nifer yr unigolion sydd ag anghenion mwy cymhleth. Drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, rydym wedi datblygu model gorau posib ar gyfer y gwasanaeth haen ganolraddol integredig. Mae hyn yn helpu i sicrhau trefniadau diogel ac effeithiol er mwyn cefnogi unigolion i fodloni eu canlyniadau lles heb fynediad diangen i ofal tymor hir a reolir. Mae dadansoddiad

annibynnol o lwyddiant yr ymagwedd hyd yn hyn yn awgrymu ein bod yn gwneud cynnydd gan fod;

- Mwy o bobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol a chyda chymorth technoleg
 - Mwy o bobl fregus, hŷn yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol ac yn iach, yn ogystal â chael ansawdd bywyd gwell
 - Mwy o bobl fregus, hŷn yn derbyn gofal yn eu cartrefi yn hytrach na mewn gofal sefydliadol, e.e. ysbytai/cartrefi gofal.
- **Cefnogaeth ar gyfer dementia** - Mae Abertawe wedi datblygu strategaeth arloesol ar gyfer byw'n dda gyda dementia, er mwyn datblygu gwasanaeth hwylus sy'n cysylltu cartrefi gofal, gwasanaethau dydd a gofal cartref ac yn seiliedig ar fodel Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar y Person gan yr Athro Dawn Brooker.

PERFFORMIAD YN 2017/18 (Y llynedd)

- Cyfradd gohirio trosglwyddiadau gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn = **5.86** (5.81)

- Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac:

- Mae ganddynt becyn gofal a chymorth sy'n llai neu sydd wedi'i leihau = **50%** (67%)

- Nid oes ganddynt becyn gofal a chefnogaeth = **79.3%** (67%)

- Canran y plant sy'n mynd at ddeintydd cofrestredig o fewn tri mis o dderbyn gofal = **86.2%** (87%)

- Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu = **96%** (92%)

Mesur lleol:

- Y canran o'n hasesiadau a gwblhawyd lle mae tystiolaeth bod gweithiwr cymwys wedi ymweld â'r plentyn = **93.3%** (84.9%)

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Yn ystod 2018/19, ein blaenoriaethau fydd:

- Darparu cysylltiadau gwell i atal yn well/cymorth cynnar gwell trwy raglenni gwella
- Monitro effaith y model adennill gwaith cymdeithasol ar ganlyniadau plant a theuluoedd
- Dechrau cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4C) CYMRYD CAMAU I AMDDIFFYN A DIOGELU POBL RHAG CAM-DRINIAETH, ESGEULUSTOD NEU NIWED (SAC3)

Mae'n rhaid cefnogi pobl ddiameddiffyn Abertawe i fod yn ddiogel, a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n rhaid rhoi trefniadau cryf ac effeithiol ar waith er mwyn dod ag unrhyw bryderon i'r amlwg. Mae'n rhaid darparu cynlluniau gofal a chefnogaeth sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth, eu dewis a'u lles.

Beth oedd ein cynlluniau'r llynedd?

- Rhoi gweithdrefnau newydd ar waith er mwyn cyflawni gofynion diogelu'r Ddeddf – tra'n aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru.
- Adolygu strwythur a phrosesau diogelu presennol gyda'r opsiynau o sefydlu tîm diogelu yn y Gwasanaethau i Oedolion wrth hyrwyddo ymagwedd busnes pawb.
- Datblygu'r holl feysydd a restrwyd fel rhai i'w gwella o fewn cynlluniau gweithredu diogelu a diogelu oedolion corfforaethol.
- Rhoi'r strwythur adennill gwaith cymdeithasol ar waith o fewn timau cynllunio gofal â chymorth y Gwasanaethau Plant.

Pa mor llwyddiannus oeddem a pha wahaniaeth a wnaed gennym?

Prif flaenoriaeth gorfforaethol Abertawe yw sicrhau bod pobl ddiameddiffyn Abertawe'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod trwy:

- **Weithio mewn partneriaethau** - Mae Dinas a Sir Abertawe'n aelod rhagweithiol o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin gydag aelodau'r cyngor yn rhan o'r ddau fwrdd a'r holl is-grwpiau trwy gyfraniad ariannol sylweddol. Mae'r polisiau a'r protocolau sy'n ymddangos yng ngwaith y bwrdd yn cael eu defnyddio'n lleol i sicrhau yr ymchwiliad i honiadau o gam-drin neu esgeulustod yn effeithiol ac i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag niwed.
- **Diogelu Corfforaethol** - Mae Cyngor Abertawe wedi nodi diogelu pobl ddiameddiffyn fel ei brif flaenoriaeth gorfforaethol. Mae'r bwrdd Diogelu Corfforaethol yn dod ag arweinwyr diogelu o bob maes gwasanaeth y cyngor ynghyd er mwyn sicrhau bod diogelu'n fusnes i bawb. Caiff hyfforddiant diogelu cymesur a gorfodol ei ddarparu ar draws gweithlu'r cyngor ac i holl aelodau etholedig. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth gorfforaethol o nifer o'r materion diogelu sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gysylltiedig â materion megis cam-fanteisio'n rhywiol,

masnachu pobl, caethwasiaeth fodern, anffurfio organau rhywiol merched a County Lines, ac yn esbonio sut gall y cyngor cyfan gyfrannu at leihau niwed.

- **Diogelu oedolion** - Fel a addawyd, cyflawnwyd adolygiad llawn o drefniadau diogelu. Mae argymhellion yn cynnwys sefydlu tîm diogelu dynodedig yn 2018/19.
- **Diogelu plant** - Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, mae'r Fframwaith Arfer Signs of Safety, sef ymagwedd systemau cyfan sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'i gweithredu ar draws y gwasanaeth. Mae adrodd am berfformiad gan ddefnyddio dangosyddion data cymharol cenedlaethol a'r dulliau sicrhau ansawdd cenedlaethol sefydledig sydd wedi'u rhoi ar waith drwy'r Uned Ansawdd Gwasanaethau, yn cefnogi gwaith Swyddogion Adolygu Annibynnol ac Arweinwyr Arfer i ysgogi arfer ardderchog. Mae adolygiadau arfer plant ac adborth gan deuluoedd trwy ymholiadau yn darparu sicrwydd sylweddol o ran effeithiolrwydd gwaith diogelu plant Abertawe.

Ar draws y cyngor ac yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae trefniadau cadarn, amserol ac effeithiol ar waith i ddod ag unrhyw bryderon i'r amlwg trwy:

- **Ddyletswydd i roi gwybod am bryderon ac ymateb iddynt** - Mae gan Abertawe ddiwydiant diogelu corfforaethol cryf â phob maes gwasanaeth a staff, ac maent yn cydweithio i atal cam-drin ac esgeulustod lle bynnag y bo'n bosibl. Lansiodd ymgyrch Wrth Sylwi Arno, Adroddwch Amdano! i gynyddu dealltwriaeth o'r ddyletswydd i roi gwybod am ddigwyddiadau o dan y Ddeddf. Yn sgîl hyfforddiant gorfodol, mae ymwybyddiaeth dda o'r ddyletswydd i roi gwybod am bryderon, ac mae trefniadau comisiynu'n bwriadu sicrhau bod asiantaethau ac unigolion yn rhoi ymatebion amserol a chymesur pan fydd achosion o gam-drin neu esgeulustod. Mae comisiynwyr yn ceisio sicrwydd gan ddarparwyr bod arfer diogelu'n gadarn ac yn gwella'n barhaus, gan roi ffocws ar wella ansawdd bywyd oedolion.
- **Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod** - Rydym wedi sefydlu Canolfan Cam-drin Domestig arloesol. Mae'r darpariaeth hon yn dilyn ymagwedd 'teulu cyfan' a roddwyd ar waith yn 2016/17. Mae'r ganolfan yn sicrhau bod ymatebion mwy cymesur ac effeithiol i Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (HDC) a phryderon eraill am gam-drin domestig sy'n cael eu nodi.
- **Eiriolaeth** mewn perthynas â diogelu. Drwy'r gwasanaeth gwneir cynnig gweithredol i unigolion lle gallant wahodd rhywun o'u dewis i'w cefnogi i gymryd rhan ac i leisio eu barn, eu dyheadau a'u teimladau. Gall ffrindiau, teulu neu rwydwaith gefnogi ehangach ddarparu'r gefnogaeth hon ar yr amod nad oes unrhyw wrthdaro o ran buddiannau mewn perthynas â phryder diogelu neu unrhyw

ymchwiliad sy'n cael ei gynnal. Yn y gwasanaethau plant, rydym wedi rhoi holl ofynion yr ymagwedd eiriolaeth genedlaethol ar waith.

Cefnogir pobl Abertawe gan gynlluniau gofal a chefnogaeth, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth, eu dewis a'u lles.

- **Cynllunio ar gyfer Gofal a Chefnogaeth** - Mae ein hymagwedd yn fwyfwy hyblyg o ran ymateb yn effeithiol i newidiadau mewn amgylchiadau trwy ymagwedd o adolygu cyflawniad yn erbyn canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd. Mae'n rhaid i gynlluniau adlewyrchu ymagwedd fwy ataliol ac ymyrryd yn gynnar ac mae'n rhaid i wasanaethau gael eu comisiynu yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- **Ailalluogi** - Ar hyn o bryd rydym yn darparu 8 gwely ailalluogi yn Nhŷ Waunarlwydd a 26 o welyau yn Bonymaen House. Mae model arfaethedig o ofal preswyl mewnol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys opsiynau ar gyfer darpariaeth ailalluogi preswyl, seibiannau preswyl a gofal cymhleth i bobl hŷn yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth mewnol yn cefnogi model gorau posib gofal cymdeithasol y Gwasanaethau i Oedolion.
- **Lles Pennaf** - Mae asesiadau lles pennaf yn fwy amlwg mewn cynlluniau Gwasanaethau i Oedolion a chynlluniau cefnogaeth. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gydgynghyrchiol at sicrhau bod unigolion yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin, esgeulustod neu ecsbloetiaeth a niwed ar ffurfiau eraill trwy hyrwyddo hawliau dynol, rhoi camau diogelu rhag colli rhyddid ar waith a gweithio gyda theuluoedd, gofalwyr a phartneriaid proffesiynol.
- **Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)** - Rydym wedi adolygu trefniadau DoLS i wella'n gallu i sicrhau bod ymateb amserol a chadarn yn cael ei roi i geisiadau am asesiad. Caiff y trefniadau hyn eu gwella unwaith eto yn 2018/19 trwy greu tîm DoLS dynodedig wedi'i gefnogi trwy fuddsoddiad ychwanegol gan y cyngor, gan liniaru effaith y cyllid annigonol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn sgîl achos Cheshire West. Trwy fwrdd diogelu Bae'r Gornllewin rydym yn parhau â'r posibilrwydd o greu adnodd rhanbarthol.
- **Gweithio amlasiantaeth** - Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gwneud defnydd da o gyfarfodydd amlasiantaeth i hyrwyddo ymagwedd bartneriaeth at gefnogi'r bobl fwyaf diamddiffyn a'r plant hynny ag anghenion cymhleth iawn. Mae peth pryder bod y bwrdd iechyd yn tynnu'n ôl o ymrwymadau hanesyddol i ariannu pecynnau gofal i'r bobl fwyaf diamddiffyn ar y cyd. Eir i'r afael â hyn drwy eu hatgyfeirio i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol.
- **Derbyniadau Brys** - Mae data perfformiad wedi amlygu ein bod yn derbyn nifer mawr o blant i'r system PDG fel lleoliad brys. Felly

rydym wedi datblygu ymagwedd er mwyn gallu nodi plant sydd mewn perygl o fod yn PDG yn gynharach; yn sgîl hyn caiff paneli atebion amlasiantaeth eu cynnull i helpu i gefnogi gweithwyr cymdeithasol sy'n rheoli achosion i greu llwybr gwahanol ar gyfer plentyn, gan ddarparu adnoddau ychwanegol i wella cynllunio diogelwch ar gyfer y plentyn hwnnw.

PERFFORMIAD YN 2017/18 (Y llynedd)

Mesurau Ansoddol - Gweler Atodiad 1 am grynodedb o'r canlyniadau

Mesurau Meintiol:

Canran yr ymholiadau am amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn amserlen statudol: ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod = **91.9%** (89.7%)

Pryderon diogelu - atgyfeiriad i'r Gwasanaethau i Oedolion lle gwneir penderfyniad o fewn 24 awr = **63.7%** (65.3%)

Canran y plant a ail-gofrestrwyd ar gofrestrau amddiffyn plant yr awdurdod lleol = **7.19%** (5.58%)

Hyd amser y plant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd = **210.5 o ddiwrnodau** (234 o ddiwrnodau)

Mesurau Lleol:

AS9: % yr asesiadau DOLS a gwblhawyd o fewn yr amserlen cwblhau safon genedlaethol dderbyniol (22 o ddiwrnodau) = **59.7%**
Targed = 60%

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Yn ystod 2018/19, ein blaenoriaethau fydd:

- Rhoi'r model adennill gwaith cymdeithasol ar waith yn y gwasanaethau plant gan roi ffocws penodol ar gryfhau llais, dewis a rheolaeth wrth gynllunio diogelwch.
- Caiff trefniadau DoLS diwygiedig eu rhoi ar waith i wella sut caiff galw ei reoli.
- Rhoi trefniadau diogelu diwygiedig ar waith yn y gwasanaethau i oedolion er mwyn cynyddu llais, dewis a rheolaeth i oedolion diamddiffyn.

4 Ch) ANNOG A CHEFNOGI POBL I DDYSGU, DATBLYGU A CHYMRYD RHAN MEWN CYMDEITHAS (SAC4)

Mae'n rhaid i ni sicrhau y gall dinasyddion Abertawe ddysgu, datblygu i'w potensial llawn a gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'n rhaid i bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth a reolir, yn ogystal â gofalwyr, allu cymryd rhan mewn cymunedau a chyfrannu atynt, gan deimlo eu bod yn rhan werthfawr o'r gymdeithas.

Mae ein hymagwedd at iechyd a lles wedi'i nodi yng Nghynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Adeiladu Dyfodol Gwell', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018:
[Abertawe - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe](#)

Beth oedd ein cynlluniau'r llynedd?

- Gweithredu'r trefniadau cenedlaethol newydd a ragwelir ar gyfer eiriolaeth i blant
- Parhau i ddatblygu ymagwedd pobl ar draws cyfarwyddiaethau at gomisiynu gwasanaethau sy'n gwreiddio egwyddorion cyd-gynhyrchu.
- Ehangu cydlynu ardaloedd lleol ar draws Abertawe
- Cynyddu gallu yn ein gwasanaethau camu i fyny/camu i lawr ac ail-alluogi
- Gwreiddio ymhellach yr ymagwedd 'yr hyn sy'n bwysig i mi' o fewn prosesau asesu

Pa mor llwyddiannus oeddem a pha wahaniaeth a wnaed gennym?

Gall dinasyddion Abertawe ddysgu, datblygu i'w potensial llawn a gwneud y pethau sydd bwysicaf iddynt drwy:

- **Wasanaeth Maethu Abertawe** - Mae gan Wasanaeth Maethu Abertawe hanes ardderchog o recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth lleol i ddarparu gofal a chefnogaeth o safon i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn cydnabyddiaeth ryngwladol am ei ymrwymiad i waith 'signs of safety' gyda phlant a theuluoedd. Eleni, mae Maethu Abertawe wedi bod yn gwella'i waith atgyfeirio, asesu risgiau a phrosesau paru er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn y cyfle gorau i gyflawni'r canlyniadau gorau posib. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd argyfwng, ein huchelgais yw sicrhau bod pob plentyn yn cael ei leoli gyda theulu; o fewn ei rwydwaith teulu neu ffrindiau ehangach os yn bosib, ond mae'n rhaid iddo gael ei leoli gyda'r gofalwr sydd fwyaf addas i ddiwallu ei anghenion, gan sicrhau diogelwch a chan ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol a sefydlogrwydd ar y cam cynharaf posib.
- **Tŷ Nant** - Gwnaed cynnydd o ran ail-leoli darpariaeth breswyl frys tymor byr Tŷ Nant i sicrhau bod y gwasanaeth arbenigol hwn yn cael ei gyflwyno mewn amgylchedd ffisegol sydd mor debyg â phosib i gartref arferol ar stryd arferol mewn cymuned leol gefnogol.

- **Gwasanaethau Dydd** - Rydym yn trawsnewid ein cynnig gwasanaethau dydd drwy godi tâl a threfnu ymgynghoriad cynlluniedig mewn perthynas â chyflwyno'r model gofal cymdeithasol i oedolion gorau posib y bydd gwasanaethau dydd yn ei ddilyn er mwyn cefnogi unigolion ag anghenion cymhleth. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau dydd yn cydymffurfio â threfniadau gwasanaethau eraill yn y gymuned.
- **Cydlynu Ardaloedd Lleol (CALI)** - Mae'r canlyniadau roedd y cyngor yn gobeithio eu gweld yn sgîl ei fuddsoddiad wrth gyflwyno CALI yn dechrau cael eu cyflawni, e.e.

Gofynnwyd i gydlynnydd CALI weithio gyda dyn yn Abertawe a oedd mewn ôl-ddyledion rhent ac mewn perygl o gael ei droi allan. Roedd hefyd yn ddi-waith. Roedd mewn perygl uchel o gael tân yn y cartref oherwydd alcohol a ffactorau eraill. Yn ychwanegol, roedd mewn perygl o ddirywiad iechyd a chael ei dderbyn i'r ysbyty am resymau corfforol a meddyliol.

Trwy weithio gyda'i gryfderau a'i rwydwaith cymdeithasol, a thrwy drefnu cyfleoedd i fodloni ei ganlyniadau a ffeirir, cafwyd canlyniadau cadarnhaol i'r cleient o ganlyniad i gefnogaeth CALI, ac yn ogystal, gallwn adrodd am ostyngiadau mewn costau gwasanaethau posib (yn seiliedig ar gostau blynyddol ar gyfartaledd) megis llai o alw ar wasanaethau iechyd meddwl, llai o gost i'r GIG mewn perthynas â dibyniaeth ar alcohol, llai o gost o ran perygl tân a'i atal, costau tai llai, llai o fudd-dal ac mae bellach wedi'i gyflogi.

Mae Abertawe'n helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol y mae eu hangen arnynt i gymryd rhan mewn cymdeithas ac rydym wedi annog pobl i fod yn aelodau bywiog o gymunedau ac i gefnogi ei gilydd gan leihau'r rhwystrau at gynhwysiad cymdeithasol.

- Yn Abertawe mae yna ymagwedd unedig at gefnogi cynhwysiad cymdeithasol, dysgu a chanlyniadau plant a phobl ifanc diamddiffyn yn Abertawe, ac mae'r rhain yn cynnwys:
 - Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe
 - Strategaeth Integredig Ddrafft ar gyfer Lles
 - Datblygu Canolfan Comisiynu Pobl
 - Cynnig gweithgareddau i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)
 - Sicrhau bod y Bwrdd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal/Tîm Addysg PDG yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, neu ar eu rhan, er mwyn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau gorau posib, gan gynnwys gweithio trwy ddatblygu ysgol rithiol
 - Cynnig gweithgaredd trawsffurfiol i ailfodelu darpariaeth Addysg Mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol (EOTAS)

- Darparu trefniadau diogelu ac amddiffyn plant, gan roi ffocws ar les wrth gynllunio ar gyfer gofal a chefnogaeth drwy ddefnyddio modelau Signs of Safety a Signs of Well-being
- Trefniadau diogelu corfforaethol a chysylltiadau ag ysgolion
- Gweithio mewn partneriaeth i leihau nifer y bobl ifanc sy'n troseddu ac yn aildroseddu drwy'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid
- Adolygiad Comisiynu - Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Nodi a chefnogi gofalwyr ifanc gan weithio gyda'r adran tlodi a'i atal
- Cynnig gweithgareddau cyflogadwyedd a phrentisiaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal
- Adennill modelau arfer gofal cymdeithasol ac ymagweddau at gyd-gynhyrchu cynlluniau gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar hawliau
- Datblygu fframwaith perfformiad trawsbynciol ar gyfer y gwasanaethau plant a theuluoedd
- Gweithio amlasiantaeth gyda phlant a phobl ifanc i gynllunio llwybrau, nodi effeithiau risgiau rhwng gwasanaethau, nodi cyfleoedd ac atal lleoliadau'n chwalu
- Mae'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a phlant y mae angen gofal a chefnogaeth a reolir arnynt yn cyflawni eu potensial llawn. Mae cynlluniau ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chael mynediad at gyfleoedd addysgol wedi'u nodi mewn cynlluniau addysg personol.
- Rhoi Strategaeth Magu Plant gorfforaethol, trawsbynciol a chadarn ar waith.

Yn yr un modd, gydag oedolion mae amrywiaeth o ymagweddau unedig i wella cynhwysiad cymdeithasol, dysgu a lles, gan gynnwys:

- Gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, chwilio am ymrwymadau a dargedir gan bartneriaid BGC;
- Paratoi achosion busnes ar gyfer gweithredoedd ataliol pellach a nodi ffynonellau ariannu
- Dysgu o lwyddiannau'r ymagwedd Cydlynu Ardaloedd Lleol (CALI) a'r Continwmm Cefnogi Teuluoedd er mwyn creu Continwmm Cefnogi Oedolion;
- Gwneud newidiadau diwylliannol er mwyn sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif;
- Rhannu negeseuon ataliol trwy wybodaeth, cyngor a chymorth (GCC);

- Cynnwys yr ymagwedd ataliaeth yn y broses adolygiad comisiynu;
- Gweithio gyda sector gwirfoddol a chymunedol Abertawe i gefnogi eu hymagwedd ataliol a helpu i ddatblygu eu rôl;
- Mwyafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a grëwyd drwy fuddsoddiad y cyngor, partneriaid a'r sector preifat yn rhanbarth Abertawe, gan dargedu'r cyfleoedd hyn at bobl leol i gynyddu cyfoeth personol.

Mesurau Perfformiad

PERFFORMIAD YN 2017/18 (Y llynedd)

Mesurau Ansoddol – gweler Atodiad 1 am grynodedb o'r canlyniadau.

Mesurau Meintiol:

- Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd:

yng Nghyfnod Allweddol 2 = **59%** (58%)

yng Nghyfnod Allweddol 3 = **8.7%** (19%)

- Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, wedi profi un neu ddau o newidiadau ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal nad oeddent o ganlyniad i drefniadau trosglwyddo = **19%** (16.6%)

Mesurau Lleol:

- Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol gyfartalog ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol = ni chaiff ei gasglu mwyach (287)
- Canran y plant cymwys, perthnasol a'r rhai a fu gynt yn berthnasol y mae ganddynt gynllun llwybr yn ôl yr angen = ni chaiff ei gasglu mwyach (**94%**)

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Yn ystod 2018/19, ein blaenoriaethau fydd:

- Sicrhau bod gwelyau ailalluogi yn Bonymaen House yn cael eu defnyddio'n llawn fel rhan o lwybrau cryfhau pellach o fewn gwasanaethau haenau canolradd a'r system iechyd/gofal cymdeithasol ehangach.
- Adolygu'r broses Cynllun Addysg Personol i sicrhau bod gan bob plentyn CAP wedi'i ddiweddarau sy'n olrhain ei gynnydd ac sy'n ei gefnogi i gyflawni ei botensial ac i fod yn uchelgeisiol.
- Creu llwybrau clir i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael mynediad at hyfforddiant, profiad gwaith, prentisiaethau a chyflogaeth.

- Gwneud mwy o gynnydd trwy roi'r strategaeth magu plant corfforaethol a'r cynllun gwaith perthnasol ar waith.

4D) CEFNOGI POBL I DDATBLYGU A CHYNNAL PERTHNASOEDD DOMESTIG, TEULUOL A PHERSONOL IACH YN DDIOGEL (SAC5)

Mae'n rhaid cefnogi dinasyddion Abertawe yn eu cymunedau er mwyn iddynt allu cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach a'u mwynhau. Mae'n rhaid helpu pobl i fod yn ymwybodol o berthnasoedd anniogel ac amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n rhaid ystyried barn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasoedd personol eraill wrth asesu a chynllunio gofal a chefnogaeth.

Mae ein cynlluniau ar gyfer adeiladu cymunedau diogel a chefnogol wedi'u nodi yn ymrwymadau polisi Abertawe ac yn y Cynllun Lles.

Beth oedd ein cynlluniau'r llynedd?

- Cyfrannu at gyflwyno ymrwymadau polisi'r cyngor er mwyn gwella profiadau bywyd a lles dinasyddion Abertawe yn y blynyddoedd sydd i ddod.
- Sicrhau bod gofalwyr, gofalwyr ifanc a gofalwyr maeth yn derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i wella eu lles eu hunain a'r hyfforddiant y mae ei angen arnynt i fod yn ofalwyr effeithiol.
- Cefnogi'r bwrdd iechyd i ddatblygu amrywiaeth ac ansawdd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS) yn Abertawe ac ar draws ôl troed BIPABM, a gwella mynediad at y gwasanaethau hyn er mwyn meithrin gwydnwch emosiynol plant, pobl ifanc a gofalwyr ifanc, yn ogystal â rhoi gwell cefnogaeth i deuluoedd sydd mewn angen.

Pa mor llwyddiannus oeddem a pha wahaniaeth a wnaed gennym?

Caiff dinasyddion Abertawe eu cefnogi o fewn cymunedau lle gallant gyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach a'u mwynhau trwy:

- **Ddiogelwch tân** - Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddarparu cefnogaeth i leoliadau gofal o fewn rhaglen arolygu sefydledig sy'n seiliedig ar risgiau. Yn ogystal â darparu cymorth, arweiniad a chefnogaeth, mae gan y gwasanaeth raglen helaeth o wiriadau diogelwch cartref ar gyfer y bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau er mwyn lleihau'r perygl o dân yng nghartrefi pobl.
- **Cyflawni Sefydlogrwydd** – Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cyflawni sefydlogrwydd mewn teulu cefnogol yn amserol. Cyflawnir hyn trwy sicrhau bod pawb yn glir o ran cynllun

sefydlogrwydd y plentyn, eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyflawni hyn, a chyda'r plentyn wrth wraidd yr holl brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae datblygu strategaeth lleoliadau digonol yn ein helpu i sicrhau bod gennym amrywiaeth addas o leoliadau sy'n addas at y diben a bod gennym ddigon ohonynt.

- Grŵp o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r llywodraeth yw partneriaeth **Diogelwch Cymunedol Abertawe (Abertawe Mwy Diogel)**. Maent yn gweithio ar y cyd i leihau troseddu ac anrhefn a gwneud Abertawe'n lle mwy diogel i fyw, gweithio a chymdeithasu ynddo. Mae angen ymagwedd amlasiantaeth er mwyn adeiladu cymunedau mwy diogel yn effeithiol ac ymagwedd sy'n mynd i'r afael â symptomau ond sydd hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r achosion sylfaenol. Mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at atal troseddu ac anrhefn, yn benodol trwy ein ffocws ar ddiogelu corfforaethol. .
- **Ymagwedd strategol at drais domestig** - Mae cam-drin domestig a rhywiol yn effeithio'n andwyol ar unigolion, teuluoedd a phlant. Mae mynd i'r afael â'r mater cymhleth hwn yn flaenoriaeth strategol i Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Abertawe, y cyngor ac o fewn y bartneriaeth ranbarthol. Cyhoeddwyd Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2022 gan Abertawe'n ddiweddar: [Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Abertawe](#)

Mae Abertawe'n Ddinas Rhuban Gwyn – wedi'i gwobrwyo am ei gwaith i roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod.

Disgwylir astudiaeth llywodraeth leol o'r ardal hon gan Swyddfa Archwilio Cymru dros y flwyddyn nesaf ac rydym yn rhagweld y bydd ein siop dan yr unto a'n canolfan trais domestig yn cael eu cydnabod fel modelau arfer da.

Rydym yn cefnogi pobl i gynnal perthnasoedd diogel sy'n bwysig iddynt trwy:

- **Drefniadau Diogelu Corfforaethol** - Mae gan Abertawe ymagwedd diogelu corfforaethol gadarn. Mae Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Abertawe wedi adolygu a diwygio ein Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae'r polisi diwygiedig hwn (Mai 2018) yn atgyfnerthu'r ymagwedd busnes pawb trwy ehangu'r disgwyliad i bartneriaid a darparwyr, yn ogystal â staff y cyngor. Bydd yn cefnogi prif flaenoriaeth y cyngor trwy greu rhaglen waith newydd ar gyfer y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Bydd hyn yn hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o faterion diogelu cyd-destunol megis camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl/caethwasiaeth fodern, anffurfio organau cenhedlu merched a County Lines.

- Gwasanaeth amlasiantaeth sy'n cefnogi'r teulu cyfan trwy ymyriadau un i un a grŵp yw **Canolfan Cam-drin Domestig (CD) Amlasiantaeth Abertawe**, gan eu helpu i deimlo'n ddiogel a heb fod ag ofn nawr ac yn y dyfodol; trwy ddarparu cefnogaeth gan y person cywir ar yr amser cywir i roi'r cymorth y mae ei eisiau a'i angen arnynt. Os oes atgyfeiriad (PPD1) gan yr heddlu neu asiantaeth arall, bydd y ganolfan CD yn cysylltu â'r teulu i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth a/neu unrhyw wybodaeth, cyngor a chefnogaeth berthnasol arall.

"Nid oes digon o eiriau neu ddiolchgarwch yn y byd i ddisgrifio faint mae cefnogaeth K a D yn ei golygu i ni.

Pe na bai wedi bod am eu profiadau proffesiynol, ni fyddwn erioed wedi gweld pa mor wahanol gall bywyd fod. Rydym yn hynod ddyledus i'r tîm cam-drin domestig.

"Rwyf bellach yn defnyddio'r siop dan yr unto ac rwyf wedi cwrdd â rhai menywod anhygoel sydd wedi dioddef cymaint, ac mae'n anghredadwy i feddwl fy mod i'n hysbrydoliaeth i eraill sy'n dioddef yr un fath o gam-drin yr wyf fi wedi llwyddo ei oroesi" **Adborth gan fam o Abertawe.**

- Prosiect gan Fae'r Gorllewin yw **MAPS** (Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth), sef gwasanaeth a ariennir gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cefnogaeth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal er mwyn gwella sefydlogrwydd lleoliad a deilliannau addysgol a gwella lles seicolegol ac emosiynol rhai o'n plant mwyaf diamddiffyn.
- **Canolfan cyswllt â goruchwyliaeth** - Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei symud i adeilad sydd newydd ei adnewyddu gyda chyfleusterau sy'n addas i blant er mwyn hyrwyddo cyswllt cadarnhaol rhwng plant a'u teuluoedd, gan ddarparu gwasanaeth gwell a fydd yn cynnwys swyddogaeth addysgol megis cefnogaeth ag anghenion gofal sylfaenol, chwarae a symbyliad, a swyddogaeth fodelu. Bydd cyfle i ddefnyddio'r adeilad ar gyfer gweithgareddau asesu cymunedol ac i gynnig cyfleoedd i blant anabl, gan gynnwys ystafell synhwyraidd, gan hyrwyddo ethos cyfleoedd cyfartal.

Caiff pobl eu helpu i adnabod perthnasoedd anniogel ac i amddiffyn eu hunain rhag cam-drin ac esgeulustod trwy:

- **Siop Dan yr Unto Cam-drin Domestig Abertawe** - Yn ogystal â'r Ganolfan Cam-drin Domestig amlasiantaeth yn HQ Heddlu De Cymru yn y Cocyd, mae gan Abertawe Siop dan yr Unto o wasanaethau cam-drin domestig yng nghanol y ddinas. Rydym yn defnyddio cyllid Cefnogi Pobl i gomisiynu gwasanaethau mewn llochesau i fenywod. Mae hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn orfodol ac mae

wedi cael ei gyflwyno ar draws y cyngor. Mae'r Ganolfan Cam-drin Domestig yn rhoi cefnogaeth a chymorth ar draws y continwmm angen.

- **Ymddygiad Risg Uchel** - Mae Abertawe'n gweithio'n agos gyda phartneriaid i ymateb ar y cyd ac yn fwy effeithiol i gefnogi pobl ifanc sy'n dangos ymddygiad risg uchel. Caiff y trefniadau hyn eu ffurfioli trwy sefydlu panel ymddygiad risg uchel a thrwy ddatblygu Strategaeth Pobl Ifanc i wella effeithiolrwydd arfer mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, camddefnyddio sylweddau a throsteddu.

Mae Abertawe wedi gweithio gyda'r heddlu, y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (GTI) a darparwyr preswyl annibynnol i ddatblygu Protocol Dad-droseddoli yn unol ag argymhellion adroddiad gan yr Arglwydd Laming. Mae'r protocol yn bwriadu lleihau'r risg o blant mewn gofal preswyl yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Rhoddwyd hyfforddiant i staff mewn cartrefi gofal am oblygiadau'r protocol a'r ymagwedd adferol mae'n ei hyrwyddo. Darparwyd yr hyfforddiant gyda chefnogaeth y GTI a'r heddlu.

Gwrandewir ar farn teuluoedd a gofalwyr a chaiff perthnasoedd personol eraill eu hystyried wrth asesu a chynllunio anghenion gofal a chefnogaeth trwy:

- **Gontinwmm Cefnogi Teuluoedd** - Yn draddodiadol mae Abertawe wedi cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cefnogi teuluoedd. Fodd bynnag rydym yn adolygu ac yn ail-lunio'r gwasanaethau hynny i wella effeithiolrwydd ein hymagwedd cymorth cynnar i sicrhau canlyniadau da i'r plant hynny sydd ar fin cael ymyriad gwaith cymdeithasol statudol.

Mae gwasanaethau cefnogi teuluoedd a pherthnasoedd cymunedol diogel yn cynnwys:

- *Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Abertawe* - sy'n darparu amrywiaeth eang o wybodaeth i deuluoedd.
- *Tîm am y Teulu*, sef ymagwedd at hwyluso cefnogaeth amlasiantaeth i deuluoedd islaw'r trothwy o wasanaethau plant statudol.
- *Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig* sy'n darparu ymyriadau arbenigol i deuluoedd sydd mewn perygl o chwalu o ganlyniad i riant sy'n camddefnyddio sylweddau.
- *Tîm Partneriaeth Teulu* sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o raglen Dechrau'n Deg Abertawe ac sy'n gweithio gyda rhieni ifanc i wella canlyniadau fel rhan o'n hymrwymiad i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant

- *Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)* sy'n cefnogi pobl ifanc ethnig yn Abertawe.
- *Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)* sef gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol i blant a phobl ifanc. Ar gyfer plant ag anghenion llai cymhleth, mae Abertawe'n buddsoddi'n drwm mewn gwasanaethau cwnsela ysgolion.
- *Cyfleoedd chwarae a hamdden* - Mae Abertawe'n gwerthfawrogi pwysigrwydd chwarae ymhlith teuluoedd sydd mewn perygl a chyda phlant diamddiffyn, ac mae'n cymryd camau i wella mynediad at yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael.
- **Sut rydym yn gweithio gyda theuluoedd** - Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cyhoeddi arweiniad sy'n nodi sut rydym yn gweithio gyda theuluoedd trwy ddefnyddio Fframwaith Arfer Signs of Safety

Mesurau Perfformiad

- **PERFFORMIAD YN 2017/18** (Y llynedd)
- **Mesurau Ansoddol:** gweler atodiad 1 am grynodedb o'r canlyniadau
- **Mesurau Meintiol:**
- Canran y plant a gefnogwyd i barhau i fyw gyda'u teulu = **68.6%** (71.5%)
- Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o sefydliad gofal yn ystod y flwyddyn = **12.6%** (17.7%)
- Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn = **9.81%** (7.07%)

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Yn ystod 2018/19, ein blaenoriaethau fydd:

- Datblygu mwy o lwybrau i blant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt ac i deuluoedd trwy ddatblygu continwwm cefnogi teuluoedd.
- Gwella effeithiolrwydd arfer wrth weithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed trwy ddatblygu strategaeth pobl ifanc i hyrwyddo ymagweddau lleihau niwed wrth weithio gyda phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad risg uchel.

4Dd) GWEITHIO GYDA PHOBL A'U CEFNOGI I GYFLAWNI LLES ECONOMAIDD GWELL, MWYNHAU BYWYD CYMDEITHASOL A BYW MEWN LLETY ADDAS SY'N DIWALLU EU HANGHENION (SAC6)

Mae'r safon hon yn disgwyl i bobl ddiameddiffyn gael eu cefnogi i gymryd rhan fel dinasyddion gweithredol yn economaidd trwy weithio ac yn gymdeithasol, ac mewn llety addas

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y mesur lles hwn wedi'i nodi yn y strategaeth Trechu Tlodi, y Fframwaith Byw â Chymorth a'r Strategaeth Sefydlogrwydd.

Beth oedd ein cynlluniau'r llynedd?

- Cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Abertawe
- Parhau i ddatblygu trefniadau partneriaeth rhanbarthol trwy lunio Cynllun Ardal a datblygu cynlluniau comisiynu rhanbarthol
- Adolygu trefniadau camddefnyddio sylweddau rhanbarthol mewn perthynas â'r effaith y mae gwasanaethau'n ei chael ar ganlyniadau
- Sefydlu'r trefniad cronfa a rennir ar gyfer gofal preswyl ym Mae'r Gorllewin

Pa mor llwyddiannus oeddem a pha wahaniaeth a wnaed gennym?

Rydym yn cefnogi pobl i gymryd rhan fel dinasyddion gweithredol yn economaidd ac yn gymdeithasol trwy:

- **Weithio ar y cyd ar draws y gyfarwyddiaeth pobl (Gwasanaeth Tlodi a'i Atal ac Addysg)** - Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi teuluoedd yn well ar draws y continwrm angen cyfan, gyda ffocws penodol ar hyrwyddo ataliaeth ac ymyrryd yn gynnar.
- **Cyfranogiad a chynnwys rhieni/gofalwyr** - Mae Abertawe'n bwriadu comisiynu fforwm rhieni/gofalwyr ar y cyd i archwilio manteision cyflwyno cynllun grant (taleb) ar gyfer gwasanaethau seibiant. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i deuluoedd gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y gwasanaethau seibiant gallant eu defnyddio.
- **Cyfleoedd Chwarae a Hamdden** - Mae adnoddau'n cael eu cyfuno i ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau chwarae a hamdden arbenigol i blant ag anableddau.
- **Gofal Cartref** - Rydym yn ehangu gallu'r Tîm Cefnogaeth Hyblyg Gartref mewnol i ddiwallu anghenion nifer bach o blant ag anghenion cymhleth y mae angen y math hwn o gefnogaeth arnynt.
- **Seibiannau Dros Nos** - Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn comisiynu seibiannau preswyl dros nos ychwanegol.
- **Tîm Cymorth Cynnar** - Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Tlodi a'i Atal wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Tîm Cymorth Cynnar dynodedig sy'n cefnogi teuluoedd â phlant

sydd ag anghenion ychwanegol ac anabledau. Bydd yr adnodd arbenigol hwn yn cynnig ymateb gwell i deuluoedd o ran eu hanghenion heb gael eu hatgyfeirio at wasanaethau statudol yn ddiangen.

- **Gofalwyr Ifanc** - Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Thlodi a'i Atal bellach yn comisiynu cefnogaeth arbenigol ar y cyd i ofalwyr ifanc.
- Mae **Asesiad Poblogaeth/Cynllun Ardal Bae'r Gorllewin** wedi helpu i nodi lle mae angen gwneud gwelliannau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth i sicrhau bod plant yn cyflawni canlyniadau da.

Rydym yn cefnogi pobl i gael mynediad i waith ystyrlon ac i gynnal y gwaith hwnnw:

- **Ailffurfio gwasanaethau BAYS 16+** - Wedi'u cyflwyno mewn partneriaeth â Barnardos, mae ein gwasanaeth BAYS+ yn ehangu ein cynnig i blant hŷn a phobl ifanc yn Abertawe. Mae tystiolaeth bod mwy o bobl ifanc yn defnyddio'r amrywiaeth o wasanaethau wedi'u cyd-leoli yn Info-Nation. Rydym yn rhagweld gwell perfformiad i bobl ifanc sy'n cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ac sy'n cael cefnogaeth fwy effeithiol wrth dyfu'n oedolion.
- **Datblygiad Gwaith** - Mae CREST yn darparu gwasanaeth dydd sy'n cynnig cyfleoedd gwaith a datblygu sgiliau sy'n seiliedig ar wella i bobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal eilaidd. Mae CREST yn cefnogi pobl yn syth ar ôl iddynt adael yr ysbyty fel rhan o'r broses cynllunio ar gyfer rhyddhau, ac mae'n gwneud cyfraniad hanfodol at gefnogi unigolion i wella trwy eu cyflwyno i amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol, artistig, technegol, galwedigaethol ac ymarferol cynhyrchiol.
- **Lleoliadau Gwaith** - Darparodd y gwasanaeth cyfarpar cymunedol 36,560 o eitemau cyfarpar gofal cymdeithasol ac iechyd i 9,153 o ddinasyddion ar draws Abertawe a CNPT yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae 50% o'r gweithlu'n elwa o leoliad gwaith â chefnogaeth.
- **Prentisiaethau** - Mae'r cyngor yn gyflogwr mawr, ac mae'n gweithio'n rhagweithiol i gynnig amrywiaeth eang o brentisiaethau gan gynnwys i'r rheiny sy'n gadael gofal.

Rydym yn cefnogi pobl i gael mynediad at gyngor ariannol a chymorth gyda budd-daliadau a grantiau trwy:

- **Fforwm Tlodi Abertawe** - Mae Cyngor Abertawe'n ymrwymedig i drechu tlodi. Cymeradwywyd Strategaeth Trechu Tlodi Abertawe 2017-2020 gan y cyngor llawn ar 25 Ionawr 2018. Fforwm Tlodi Abertawe, sydd wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr, Phil Roberts,

sy'n arwain y ffordd wrth roi'r strategaeth ar waith. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda chydweithwyr Tlodi a'i Atal gan ddilyn ymagwedd unedig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r effeithiau posib y gall taliadau newydd eu cael ar bobl a theuluoedd diamddiffyn, ac maent yn cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd manteisio'n llawn ar fudd-daliadau o fewn gwasanaethau.

Rydym yn cefnogi pobl ifanc i gael mynediad i lety sy'n diwallu eu hanghenion ac yn hwyluso byw'n annibynnol trwy:

- **Gefnogi Pobl:** – Mae Tîm Cefnogi Pobl Abertawe'n comisiynu cefnogaeth ar gyfer llety er mwyn lleihau tenantiaethau sy'n methu a derbyniadau i ysbytai a chartrefi preswyl. Comisiynir amrywiaeth eang o wasanaethau i hyrwyddo byw'n annibynnol i ystod eang o unigolion ag anghenion ychwanegol a nodweddion diamddiffyn eraill. Gellir darparu gwasanaethau yng nghartref y person neu mewn llety arall â chymorth, a bydd yn cynnwys:
 - Cefnogaeth yn ôl y Galw - mae gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â'r person yn ei gartref ac yn rhoi cefnogaeth gyson am gyfnod cytunedig.
 - Cartrefi â Chymorth – mae person yn symud i lety lle darperir cefnogaeth.
 - Cefnogaeth a Rennir - mae person yn symud i lety â chyfleusterau a rennir lle darperir y gefnogaeth.
 - Hostelau Mynediad Uniongyrchol - Mynediad 24 awr at gefnogaeth gan gynnwys Llochesi Cymorth i Fenywod.
- **Fframwaith Byw â Chymorth wedi'i gyd-gynhyrchu** - Dyma ddarn blaengar o waith y mae Abertawe wedi bod yn ei ddefnyddio i weithio'n agos gydag 8 darparwr lleol a nifer o ddinasyddion sy'n cael mynediad i wasanaethau llety â chefnogaeth ar hyn o bryd, gan ddylunio fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau i gefnogi comisiynu yn y dyfodol, gan gynnwys manyleb gwasanaeth newydd.
- **Cronfa a Rennir** – Mae yna gyfrifoldeb cyfreithiol i ddatblygu trefniadau cronfa a rennir o dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Trwy ddatblygu trefniadau cronfa a rennir, ein nod yw sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r fecanwaith i wella profiad preswylwyr a'u teuluoedd a mynd i'r afael â blaenoriaethau comisiynu.
- **Llwybr at Lety BAYS 16+** - Cwblhawyd adolygiad strategol o'n llwybr llety 16+ unigol ac rydym bellach yn ymgymryd ag ymarfer caffael gyda'n darparwyr er mwyn gwella opsiynau i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Bydd bwrw ymlaen â chynllun gweithredu 'Breuddwydion Cudd' y Comisiynydd Plant yn sicrhau ein bod yn

darparu'r cyfleoedd gorau posib ar gyfer llwyddiant i rai o'n pobl ifanc fwyaf diamddiffyn.

- **Lleoliadau Digonol** - Trwy Gynllun Gweithredu Strategaeth Lleoliadau Digonol newydd, rydym mewn sefyllfa well i sicrhau bod amrywiaeth digonol o opsiynau lleoliad ar gael er mwyn rhoi'r cyfle gorau i blant sy'n derbyn gofal gyflawni sefydlogrwydd ar y cyfle cynharaf posib.

PERFFORMIAD YN 2017/18 (Y llynedd)

Mesurau Ansoddol: Gweler Atodiad 1 am grynodedb o'r canlyniadau

Mesurau Meintiol:

- Canran y bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal = **35.19%** (28.79%)
 - 24 mis ar ôl gadael gofal = **34.15%** (34.29%)

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Yn ystod 2018/19, ein blaenoriaethau fydd:

- Sicrhau bod trefniadau addas mewn perthynas â chronfeydd a rennir i gartrefi gofal ar waith
- Sicrhau bod trefniadau monitro contract effeithiol ar waith er mwyn cyflwyno gwasanaethau o safon uchel
- Ailffurfio gwasanaethau BAYS 16+ i wella cyfleoedd i blant hŷn a phobl ifanc.
- Gweithio rhwng y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Cefnogi Pobl a Thai i ail-gomisiynu gwasanaethau llety â chymorth er mwyn gwella canlyniadau i'r rheiny sy'n gadael gofal.

5. SUT RYDYM YN GWNEUD YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

5A) EIN GWEITHLU A SUT RYDYM YN CEFNOGI EI ROLAU PROFFESIYNOL

Mae'r adran hon yn trafod sut rydym yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno gan weithlu cymwys, profiadol a hyderus, gyda chefnogaeth i allu adnabod anghenion unigolion ac ymateb iddynt yn amserol ac yn effeithiol. Mae hefyd yn esbonio sut mae'r cyngor yn sicrhau bod staff a gwasanaethau'n bodloni'r safonau a ddisgwyllir ganddynt.

Ein gweithlu yw ein hadnodd pwysicaf oll. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i fod y gorau y gallant fod. Rydym yn annog arfer gwaith cymdeithasol sy'n cyfleu gostyngedd rwydd, gobaith a gweledigaeth. Rydym yn disgwyl i'r dinesydd fod yn arbenigwr o ran ei amgylchiadau ei hunan ac felly rydym yn

gwerthfawrogi gwrando a chygynhyrchu'n fawr fel y ffordd rydym yn cyflawni'n gwaith gorau. Rydym yn parhau i gredu bod buddsoddi yn ein staff yn rhywbeth gwerth chweil, hyd yn oed mewn cyfnodau o galedi. Mae arfer ardderchog sy'n cefnogi plant, teuluoedd, unigolion a gofalwyr i gyflawni canlyniadau da yn llawer mwy cost effeithiol yn y pen draw ac yn y tymor hir.

Yn ogystal â chael gweithlu sy'n gallu darparu gofal cymdeithasol o safon uchel, mae hefyd yn bwysig ein bod yn creu'r isadeiledd a'r systemau cefnogi gorau posib i alluogi amodau lle gall staff fod y gorau y gallant fod.

Beth oedd ein cynlluniau'r llynedd?

Y llynedd penderfynom ar yr amcanion canlynol, a llwyddom i'w cyflawni:

- Datblygu trefniadau cynllunio gweithlu strategol

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol iawn bod angen diogelu adnoddau er mwyn rheoli anghenion gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae is-grŵp gweithlu Bae'r Gorllewin wedi cynhyrchu Cynllun Datblygu Gweithlu Rhanbarthol. Rydym hefyd wedi gweithio ar y cyd ar draws y rhanbarth i gynnal asesiad poblogaeth ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Gellir cael mynediad at yr asesiad poblogaeth hwn yn: <http://www.westernbay.org.uk/>

Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Mae Cyngor Abertawe'n adolygu'r gweithlu a threfniadau datblygu sefydliadol ar hyn o bryd.

Mae'r cyngor yn cefnogi ein gweithlu i adnabod anghenion ac ymateb iddynt mewn modd amserol ac effeithiol, sy'n hanfodol er mwyn darparu gofal o safon uchel trwy:

- Sicrhau bod hyfforddiant a chyfnod sefydlu gorfodol i holl staff y cyngor a phob aelod etholedig, gyda ffocws penodol ar ddiogelu a thrais domestig er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.
- Ffocws ar ganlyniadau lles
- Gweithio ystwyth - Fel rhan o drawsnewidiad Abertawe Gynaliadwy, mae llawer o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cefnogi i weithio'n gallach drwy gyflwyno gweithio ystwyth, gan gynnwys manau mwy modern ac agored, rhannu desgiau, gweithio symudol, skype for business a chyfarpar TG mwy effeithiol.
- Arolwg staff - mae Cyngor Abertawe'n cynnal arolwg staff ddwywaith y flwyddyn, gyda'r disgwyl i bob Pennaeth Gwasanaeth ymateb i adborth gan staff drwy baratoi cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â materion ac awgrymiadau a wnaed gan staff.

Mae rheoli salwch yn parhau i fod yn her enfawr i'r cyngor cyfan, gydag effaith arbennig ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl megis y Gwasanaethau Plant a

Theuluoedd.

O fewn y Rhaglen Gwella Gwasanaethau i Oedolion, mae ffocws ar ddatblygu gweithlu sy'n cynnwys 5 ffrwd waith graidd:

- Cydlynu a gweithredu hyfforddiant ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Datblygu a Chyflwyno Fframwaith Arfer Gwaith Cymdeithasol
- Strategaeth Datblygu'r Gweithlu
- Adolygiad o Brosesau ac Arferion Diogelu
- Adolygiad DoLS

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion wedi gweithio gyda'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (SGC) i ddatblygu fframwaith arfer trosgynnol: 'Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig'. Mae'r fframwaith bellach wedi'i gwblhau ac rydym yn dechrau rhoi elfennau hyfforddi'r gweithlu ar waith, gwneud newidiadau i brosesau a datblygu tecynnau a sgiliau arfer newydd.

Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, rhoddir ffocws ar 'Les y Gweithlu' trwy ddatblygu strategaeth lles gweithlu a strategaeth gyfathrebu. Mae'r agwedd lles y gweithlu yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cynnwys nifer o flaenoriaethau:

- Ail-ddylunio Cynllunio Gofal Cymdeithasol (Adennill Gwaith Cymdeithasol - model Abertawe)
- Adolygu rolau Swyddogion Adolygu Annibynnol/Uned Ansawdd Gwasanaethau
- Datblygu Polisiâu
- Hyfforddiant (gwasanaeth cyfan)
- Adleoli'r Tîm Cyswllt dan Oruchwyliaeth
- Gwella cyfathrebu

Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, bydd y timau cynllunio gofal â chefnogaeth yn cael eu hail-gynllunio ym mis Mai 2018. Un o brif flaenoriaethau'r gwaith hwn yw sicrhau bod mwy o oruchwyliaeth ar gael i hybu ansawdd a rhagoriaeth arfer.

Bydd cynllunio gweithlu cadarn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn y cyfarfodydd Monitro Perfformiad ac Ariannol a chyfarfodydd Uwch-reolwyr, mae rheolwyr yn adolygu gwybodaeth perfformiad, absenoldeb salwch yn rheolaidd, ynghyd ag amrywiaeth o wybodaeth am ddatblygiad sefydliadol er mwyn cefnogi swyddogaethau megis cynllunio olyniaeth, hyfforddiant a datblygiad, recriwtio a chadw etc.

Mae goruchwyliaeth yn allweddol i ddatblygiad arfer gwaith cymdeithasol, ac chymerir camau i sicrhau bod gan staff oruchwyliaeth glinigol a phersonol rheolaidd i gynnal safonau uchel. Caiff amllder goruchwyliaeth staff ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ei fonitro o fewn adroddiadau perfformiad

misol. Mae adroddiadau tebyg yn cael eu datblygu yn y Gwasanaethau i Oedolion.

Mae'r ddau wasanaeth yn parhau i ystyried ffyrdd o wella cyfathrebu â staff; mae nifer ohonynt yn gweithio mewn cymunedau, mae rhai'n gweithio ar eu pennau eu hunain ac nid yw nifer ohonynt mewn sefyllfa i gael mynediad at gyfrifiadur yn ystod eu gwaith. Mae cylchlythyrau rheolaidd bellach yn cael eu cynhyrchu yn y Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac o fewn y cyngor ehangach.

Yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Abertawe, rydym wedi rhoi premiwm ar gydnabod a dathlu cyflawniadau staff ar lefel gwasanaeth, tîm neu'n unigol. Mae rhai enghreifftiau o'r flwyddyn hon yn cynnwys y canlynol:

- Derbyniodd gweithiwr cefnogi teuluoedd yn Abertawe glod am ei chefnogaeth i berson ifanc mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol. Mae'r enghraifft achos hon bellach yn cael ei rhannu â gweithwyr i helpu i ddatblygu arfer yn y maes hanfodol hwn sef diogelu.
- Derbyniodd nifer o staff yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ganmoliaethau gan ein hasiantaeth bartner, Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), am eu gwaith â phlant diamddiffyn sydd mewn perygl o droseddu.
- Mae Tîm Gwaith Cymdeithasol Canolog Abertawe wedi bod yn rhoi'r peilot canlyniadau cenedlaethol ar waith ac yn rhannu astudiaethau achos o'r gwaith maent wedi'i gyflawni sy'n canolbwyntio ar y person. Mae hyn wedi helpu i lywio datblygiad y fframwaith Arfer Oedolion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.
- Mae ein tîm NEAT wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr y Municipal Journal ac wedi cael ei ganmol gan arweinwyr cymunedol lleol a'r gymuned ehangach. Mae'r tîm NEAT yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i chwarae rôl weithredol yn eu cymunedau lleol gan drawsnewid cymunedau'n cymdogaethau trwy greu lle glanach a gwyrddach i bobl fyw ynddo. Mae'r gwasanaeth wedi cynnwys ysgolion, CRA, cynghorau cymuned a grwpiau gwirfoddol ac mae wedi gweithio ar brosiectau i hyrwyddo ethos cyd-gynhyrchu a'r rôl y gall ei chwarae mewn cymdeithas amlddiwylliannol fodern.

Mae datblygiadau pwysig eraill yn cynnwys:

- ❖ Yn yr ail Wobrau Dewis Cleifion a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, cydnabuwyd peth o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan dimau.
- ❖ Aeth 627 o staff, cynghorwyr, partneriaid a gofalwyr maeth i'r digwyddiad lles mawr cyntaf a hynod lwyddiannus a gynhaliwyd gan Gyngor Abertawe ym mis Ionawr yn Neuadd Brangwyn y ddinas.
- ❖ **Rhannu arfer gorau** - Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau i Oedolion yn cynnal dau ddiwrnod datblygu staff bob blwyddyn yng Nghlwb Cymdeithasol Penlan. Daw cannoedd o staff a

phartneriaid ynghyd i rannu arfer gorau. Rhannwyd nifer o'r straeon am gyflawniad rydych wedi'u darllen yn yr adroddiad hwn yn y digwyddiadau hyn am y tro cyntaf.

- ❖ Mae cynllun Help Llaw Abertawe'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i staff gefnogi eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan gynnwys ymwybyddiaeth ofalgar, pilates, ioga ar y traeth a rheoli straen.
- ❖ Mae Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaeth wedi blaenoriaethu ymweliadau wythnosol â thimau a gwasanaethau rheng flaen. Dosberthir adborth o'r ymweliadau hyn yn fisol ac mae'n agwedd bwysig ar ddiwylliant agored, tryloyw a chadarnhaol Abertawe.

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Ein hamcanion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw:

- Cymeradwyo Cynllun Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau i Oedolion a'i roi ar waith.
- Datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'i roi ar waith i sicrhau ein bod yn parhau i ddysgu a gwella'n harfer gofal cymdeithasol a diogelu gyda threfniadau tîm newydd.

- **5B) EIN HADNODDAU ARIANNOL A SUT RYDYM YN CYNLLUNIO AR GYFER Y DYFODOL**

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghyngor Abertawe i ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol, a sut mae cyfyngiadau ariannol yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus allweddol.

Mae graddfa'r her ariannol, demograffig a chynladwyedd sy'n wynebu Cyngor Abertawe'n gofyn am ymagwedd hollol newydd at gyflwyno holl wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae ymagwedd gyffredinol Abertawe wedi'i nodi yn yr adroddiad Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.

Mae cynigion cyllidebol penodol 2018/19 - 2021/22 yn rhan o Gynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n canolbwyntio ar:

- Ddiben craidd y cyngor yn y dyfodol
- Trawsnewid gwasanaethau a'r model cyflwyno
- Mwy o gydweithio â chynghorau eraill a sefydliadau lleol, grwpiau cymunedol a phreswylwyr

Yn anad dim, mae'n pwysleisio datrysiadau cynaliadwy gydag ataliaeth wrth ei wraidd a chyda'r nod o amddiffyn darpariaeth reng flaen lle bynnag y bo modd.

Fodd bynnag mae'r her yn sylweddol gyda'r cyngor yn gorfod cynllunio i arbed £80 miliwn dros y 3 blynedd nesaf oherwydd gostyngiadau ariannol a ragwelir o ganlyniad i galedi.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y 5 mlynedd diwethaf wrth gyflwyno gwelliannau i wasanaethau sydd wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol mewn gwariant. Disgrifir y gwelliannau hyn yn ein Strategaeth Lleihau PDG yn Ddiogel ac mae gwariant wedi gostwng £6 miliwn dros y cyfnod. Os ystyrir chwyddiant, mae hyn yn gyfwerth ag £8 miliwn o arbedion hyd yn hyn.

Nid yw'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i'r Gwasanaethau i Oedolion yn cyflwyno arbedion o'r fath eto. Mae gwariant yn parhau i gynyddu'n flynyddol. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd peth pwysau chwyddiantol i oddeutu £5 miliwn hyd yn hyn.

Beth oedd ein cynlluniau'r llynedd?

Y weledigaeth i'r Gwasanaethau i Oedolion fel a nodwyd ym Model Gorau Posib y Gwasanaethau i Oedolion a gwelliannau penodol i wasanaethau fel a nodwyd yn y cynllun gwella.

Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys nifer o fesurau i sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau i fodloni galw a disgwyliadau cynyddol.

Rydym yn cydnabod y gallwn ddylunio gwasanaethau ac ymagweddau sy'n fwy effeithlon a chost effeithiol trwy gynnwys pobl a phartneriaid yn gynt. Yn

ychwanegol, trwy gomisiynu a chaffael gwasanaethau'n fwy effeithiol, a thrwy ddod o hyd i ffyrdd cost effeithiol o ddarparu gofal, gallwn sicrhau bod pob ceiniog a gaiff ei gwario gan y cyngor a'i bartneriaid yn mwyafu iechyd a lles ein poblogaeth. Y flaenoriaeth y flwyddyn nesaf, ac yn sgîl ymgynghoriad cyhoeddus, fydd symud arian presennol o'n model traddodiadol i fodel gofal sy'n fwy blaengar.

Yn yr un modd mae gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fodel gwasanaeth sy'n nodi beth ddylai 'da' fod, a rhaglen wella i ddarparu'r newidiadau angenrheidiol pellach.

Trwy roi Strategaeth Lleihau PDG yn Ddiogel ar waith sydd wedi'i hategu gan welliannau mewn ataliaeth, arfer gwaith cymdeithasol a chomisiynu ar gyfer canlyniadau gwell, mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â gwasanaethau plant dros y 3 blynedd nesaf gan gynnwys arbedion cyllidebol angenrheidiol ychwanegol.

Fel ran o'r broses o symud tuag at ymagwedd fwy ataliol, bydd y cyngor yn parhau i fuddsoddi ym model Cydlynu Ardaloedd Lleol Abertawe i wella cefnogaeth yn y gymuned, sy'n osgoi neu'n oedi'r angen am ofal a chefnogaeth a reolir. Byddwn hefyd yn cynnal buddsoddiad, gan gynnwys trwy ddefnyddio cronfa CGI Llywodraeth Cymru'n barhaus, mewn gwasanaethau gofal canolraddol integredig lle ceir tystiolaeth o ostyngiad wrth adleoli i wasanaethau gofal uniongyrchol traddodiadol.

Bydd manylion llawn ein cynlluniau cynladwyedd ariannol yn parhau i gael eu trafod fel rhan o broses ymgynghori ar gyllideb flynyddol y cyngor.

Yr hyn a gyflawnwyd

Ceir nifer o ddatblygiadau yn yr adroddiad hwn, ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu'n hanfodol at greu model cynaliadwy o ofal cymdeithasol yn Abertawe, ac at ymateb i'r heriau sy'n deillio o bwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol, caledi parhaus a galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus, yn benodol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae cynlluniau gwella yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau i Oedolion yn cyd-fynd â rhagdybiaethau cyllidebol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o weithgareddau, galw arfaethedig ac arbedion gofynnol. Caiff y rhain eu monitro fel rhan o drefniadau olrhain arbedion cyffredinol y cyngor.
- Mae Adolygiadau Comisiynu Abertawe Gynaliadwy y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi arwain at gynigion i ailfodelu'r gwasanaethau mewnol ac ailgomisiynu gwasanaethau allanol ym meysydd gofal cartref, gofal preswyl a gwasanaethau dydd i sicrhau eu bod yn addas yn gyffredinol ar gyfer model gorau posib gofal cymdeithasol i oedolion.
- Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynlluniau i symud i fodel newydd er mwyn comisiynu gofal cartref ac i barhau ag ymgynghoriad

cyhoeddus ar gynigion mewn perthynas â newidiadau i'n model mewnol ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl a gwasanaethau dydd i bobl hŷn.

- Rydym yn gweithredu model Bae'r Gorllewin ar gyfer comisiynu pecynnau gofal cymhleth sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn y gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ac anabledau dysgu.
- Diweddarau Cynnig Taliadau Uniongyrchol Abertawe.
- Strategaethau rheoli galw, gan gynnwys yr ymagwedd Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth at les, a'r asesiad 'yr hyn sy'n bwysig i chi'.
- Cynigion buddsoddi i arbed i symud gwasanaethau tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar.

Polisi Codi Tâl - Mae Cyngor Abertawe'n cynnal adolygiad blynyddol o bolisi codi tâl y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r rhestr o daliadau er mwyn eu defnyddio am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r polisi hwn yn bodloni gofynion statudol y Ddeddf i weithredu fframwaith codi tâl unigol ac yn nodi sut mae'r cyngor yn bwriadu arfer ei bwerau dewisol ar godi tâl. Yn sgîl ymgynghoriad cyhoeddus ar raddfa fawr, cymeradwyodd Cyngor Abertawe'r cynnig i gyflwyno taliadau newydd ar gyfer gwasanaethau dydd a seibiannau yn y cartref, yn ogystal â chynnydd chwyddiannol i daliadau eraill ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned a gwasanaethau gofal preswyl.

Tîm Incwm a Chyllid Gofal Cymdeithasol - Mae'r tîm hwn bellach yn rhan o wasanaeth cyllid corfforaethol ehangach sy'n creu mwy o wydwnch. Mae nifer yr asesiadau ariannol a gynhelir bob blwyddyn yn parhau i gynyddu ac mae'r isadeiledd corfforaethol newydd wedi gwella effeithiolrwydd a dibynadwyedd ein prosesau asesu ariannol.

Sefyllfa gyffredinol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd y flwyddyn:

Derbyniodd y Gwasanaethau Plant ddyraniad cyllideb digyfnewid yn 2017/18 yn ogystal â thanwariant bach pellach gwerth oddeutu £200 mil, gan or-gyflawni ar yr holl arbedion cyllidebol angenrheidiol a bennwyd ar gyfer y flwyddyn.

Derbyniodd y Gwasanaethau i Oedolion ddyraniad cyllideb digyfnewid yn 2017/18 er gwaethaf gorwariant sylweddol yn y flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, roedd y Gwasanaethau i Oedolion wedi gorwario oddeutu £4.5 miliwn, sef gyfwerth â gwariant ychydig yn uwch na 2016/17 er gwaethaf cyflawni nifer o'r arbedion angenrheidiol a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae cyllideb sylfaenol y Gwasanaethau i Oedolion wedi cael ei chywiro i ganiatáu ar gyfer pwysau chwyddiannol nad oeddent yn cael eu hariannu'n flaenorol.

Mae ein dadansoddiad o gostau gofal cymdeithasol, sy'n debygol o gynyddu yn Abertawe dros y 3 blynedd nesaf, yn rhagweld pwysau'n cyrraedd rhwng £20 a £24 miliwn. Bydd y gwelliannau i'r gwasanaeth sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod yn gwireddu oddeutu £12 miliwn o arbedion os gweithredir pob

un yn llwyddiannus. O ganlyniad mae yna fwch gwerth o leiaf £8 miliwn a bydd angen ei lenwi trwy fuddsoddiadau ychwanegol neu drwy doriadau mewn gwasanaethau.

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

- Cyflawni cyllideb gytbwys er mwyn cefnogi cynladwyedd ariannol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys cyflwyno'r holl gynigion arbedion gofynnol a nodwyd yng nghynllun cyllideb y cyngor.
- Mwy o waith i ddarparu Continwwm Cefnogi Teuluoedd effeithiol a rhoi isadeiledd cefnogi cynllunio gofal Adennill Gwaith Cymdeithasol Abertawe ar waith.
- Gwneud penderfyniadau ynglŷn â ddylid gwneud newidiadau i wasanaethau preswyl a dydd yn sgîl ymgynghoriad cyhoeddus neu beidio.
- Rhoi argymhellion yr Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref ar waith.
- Cwblhau'r Adolygiad Comisiynu ar y Gwasanaethau Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl.
- Cyflwyno taliadau ar gyfer gwasanaethau dydd a seibiannau yn y cartref.

5C) EIN GWAITH PARTNERIAETH, ARWEINYDDIAETH WLEIDYDDOL A CHORFFORAETHOL, LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg gryno o'r llywodraethu, y systemau a'r partneriaethau sydd ar waith i sicrhau bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i wella a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Yr hyn a gyflawnwyd

- Partneriaeth Ranbarthol Bae'r Gorllewin
- Cynllun Ardal a Rhaglen Waith
- Partneriaethau â Chyngor Abertawe

Ceir dau banel craffu dynodedig sy'n goruchwyllo ac yn herio perfformiad y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn adeiladol. Mae Bwrdd Magu Plant Corfforaethol Abertawe'n sicrhau bod y cyngor yn rhoi ffocws ar les plant a phobl ifanc, ac ar sicrhau bod cyfrifoldebau Magu Plant Corfforaethol yn cael eu cyflawni.

Mae Rhaglenni Gwella'r Gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn rhan o raglen drawsnewid ehangach y cyngor - Abertawe Gynaliadwy.

Mae'r cyngor yn rhoi rhaglen o adolygiadau comisiynu ar gyfer pob gwasanaeth ar waith. Cwblhawyd 4 allan o'r 5 adolygiad sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r 5^{ed} yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i dderbyn cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol sylweddol, fel a adlewyrchwyd yng nghynllun corfforaethol y cyngor.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ystyried adroddiadau perfformiad a diogelu chwarterol gan y gwasanaethau plant ac oedolion.

Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd sicrhau bob yn ail fis gyda Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, cadeiryddion Bwrdd Gweithredol Diogelu'r Cyhoedd a Grŵp Arweiniol Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gornllewin.

Mae Aelod y Cabinet yn cynnal cyfarfodydd briffio ar wahân gyda Phenaethiaid y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol o leiaf unwaith bob pythefnos. Mae Aelod y Cabinet yn cadeirio'r Bwrdd Magu Plant Corfforaethol ac yn cyd-gadeirio'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gyda Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Arweinydd y Cyngor oedd yn cadeirio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2017/18 a bydd ef, Aelod y Cabinet, y Prif Weithredwr a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn aelodau. Mae Dinas a Sir Abertawe wedi parhau i gynnal Tîm Rhaglen Bae'r Gornllewin ac mae'n chwarae rôl arweiniol wrth arwain mentrau cydweithredol, integredig a rhanbarthol a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion lles dinasyddion Abertawe ynghyd â dinasyddion ar draws y rhanbarth. Yn ystod 2017/18 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ymgynghori ar ail-lunio ffin bwrdd iechyd PABM o bosib a symud Pen-y-Bont ar Ogwr i ardal Cwm Taf. Rydym yn ymwybodol erbyn hyn y bydd yr ail-lunio'n mynd rhagddo ac felly bydd blaenoriaethau Bae'r Gornllewin ar gyfer y flwyddyn newydd yn cael eu dominyddu'n gynyddol gan reoli'r newid o ran trefniadau rhanbarthol a thrwy gefnogi argymhellion yr Adolygiad Seneddol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ychwanegol i drefniadau craffu, mae'r Cabinet hefyd wedi sefydlu Pwyllgorau Datblygu Polisi lle gall aelodau etholedig a swyddogion weithio ar y cyd i ystyried a llunio polisiau newydd. Yn 2017/18 roedd yna bwyllgor penodol ar gyfer diogelu.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - Mae Abertawe'n chwarae rhan weithredol mewn rhaglenni partneriaeth yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae gwaith y flwyddyn hon yn cynnwys Strategaeth Recriwtio Maethu, cyfnod treialu i gyflwyno comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau i blant ag anghenion cymhleth, datblygu Tîm Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth (MAPS) a rhoi'r trefniadau eiriolaeth cenedlaethol ar waith. Erbyn hyn mae gan bartneriaeth Bae'r Gornllewin raglen glir i blant a thrwy'r rhaglen hon mae cyfran fwy o wariant CGI Llywodraeth Cymru yn cael ei defnyddio i wella gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth.

Mae'r trefniadau GTI rhanbarthol, mabwysiadu rhanbarthol, IFSS rhanbarthol a Bwrdd Diogelu rhanbarthol bellach yn fusnes fel arfer.

Yn lleol, cwblhawyd yr adolygiad comisiynu ar gyfer cefnogi teuluoedd ar sail drawsbynciol gan y cyngor. Mae'r argymhellion yn cael eu cyflwyno trwy Grŵp Llywio Continwmm Cefnogi Teuluoedd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau o'r Gyfarwyddiaeth Pobl.

Mae'r **Gwasanaethau i Oedolion** wedi gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y cyngor i gynnal nifer o adolygiadau comisiynu.

Mae Partneriaeth Bae'r Gorllewin wedi sefydlu rhaglenni i hyrwyddo gweithio cydweithredol, integredig a phartneriaeth ar draws y rhanbarth, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol, datblygu'r gwasanaeth awtistiaeth cenedlaethol, datblygu cronfeydd a rennir ar gyfer gofal preswyl, datblygu'r gweithlu a chomisiynu ar gyfer oedolion ag anghenion cymhleth.

Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol dros Gefnogi Pobl i gyd yn dilyn trefniadau busnes fel arfer sefydledig.

Yn lleol, mae'r Gyfarwyddiaeth Pobl wedi sefydlu Bwrdd Comisiynu'r Bobl er mwyn cyflwyno ymagwedd gydweithredol fwy effeithiol at gomisiynu ar gyfer canlyniadau.

Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gyflawni amcanion a nodir yn Rhaglen Gwella Gwasanaethau i Oedolion (2018-21), gan gynnwys
 - Atal yn well/Cymorth cynnar gwell
 - Model Rhanbarthol Gwasanaethau Gofal Canolraddol
 - Datblygu'r gweithlu
- Gweithio gyda phartneriaid i roi Rhaglen Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (2018-21) ar waith, gan gynnwys:
 - Datblygu'r Continwmm Cymorth i Deuluoedd lleol a threfniadau cymorth cynnar
 - Ailffurfio Gwasanaeth BAYS 16+ ar y cyd
 - MAPS (Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth).
- Gweithio'n rhanbarthol i gefnogi ailffurfio Partneriaeth Bae'r Gorllewin yn dilyn newidiadau i ffin y bwrdd iechyd a thynnu Pen-y-Bont ar Ogwr, a'r angen i roi argymhellion yr Adolygiad Seneddol o Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith.

6. CAEL MYNEDIAD I FWY O WYBODAETH A DOGFENNAU ALLWEDDOL

6a) Cwynion a sylwadau

Bwriedir i'r adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r Canmoliaethau a'r Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2016/17 gael ei adrodd i'r Cabinet ym mis Hydref 2017:

[ADRODDIAD CWYNIION BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU PLANT](#)

[ADRODDIAD CWYNIION BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU I OEDOLION](#)

6b) **Mwy Na Geiriau**

Mae Cyngor Abertawe a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod pwysigrwydd diwallu anghenion Cymraeg unigolion, ac rydym yn ymroddedig i gynnig, darparu a datblygu gwasanaethau Cymraeg.

Beth oedd ein cynlluniau'r llynedd?

- Hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol mewn cartrefi gofal er mwyn diwallu anghenion iaith a lles pobl hŷn â dementia yn well.
- Mae Cyngor Abertawe wedi cofrestru i weithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru erbyn y flwyddyn nesaf, a dylai hyn sicrhau bod cofnodion yn cydymffurfio'n llawn â safonau cenedlaethol.
- Goruchwylir cynnydd gan y grŵp llywio ac yn rhanbarthol.

Yr hyn a gyflawnwyd

CYNNYDD **'MWY NA GEIRIAU'** YN YR AIL FLWYDDYN

Yn ystod y flwyddyn, mae'r gyfarwyddiaeth wedi bod yn gweithio tuag at gynyddu gallu i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog gan fod diffyg gallu ar hyn o bryd, ac adlewyrchir hyn yn y nifer bach o siaradwyr Cymraeg ar draws y cyngor. Anogir staff i gofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg ac i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt er lles eu gwasanaeth.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r 'cynnig gweithredol' yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (GCaCh) gyda chefnogaeth cynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau bod mynediad at weithiwr cymdeithasol deallus sy'n siarad Cymraeg ac sydd wedi'i hyfforddi i ddarparu cyngor a chefnogaeth.

Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn her anodd ac rydym yn bwriadu cynnwys asesiad sgiliau Cymraeg fel rhan o'n proses recriwtio os oes angen poblogaeth neu fwllch mewn gwasanaeth a nodwyd.

Cynrychiolir Cyngor Abertawe a Bae'r Gorllewin yn fforwm **Mwy na Geiriau** Rhanbarthol Bwrdd Iechyd Cwm Taf a PABM; grŵp cydweithredol a ffurfiwyd i roi **Mwy na Geiriau** ar waith yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y ddau ranbarth.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19 (AMCANION MWY NA GEIRIAU YN Y DRYDEDD FLWYDDYN 2018/18):

I gyflawni blaenoriaethau trydydd flwyddyn y cynllun presennol, bydd angen gweithio mewn partneriaeth â'r cyngor a thrwy rwydweithiau rhanbarthol.

6c) Cysylltu â Ni

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi manylion am daith wella Abertawe yn 2017/18.

Mae'r adroddiad llawn ar gael mewn ieithoedd eraill ac mewn fformatiau eraill ar gais.

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n meddwl bod yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb teg o sefyllfa bresennol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Abertawe; os yw'n adlewyrchu eich profiadau chi dros y flwyddyn ddiwethaf; neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am bwnc yn yr adroddiad hwn.

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych a gallwch eu hanfon drwy e-bost at Simon.Jones@abertawe.gov.uk

Gallwch ysgrifennu'n uniongyrchol ataf yn:

David Howes, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Abertawe, 3ydd Llawr, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN

Am fwy o wybodaeth am gael mynediad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ewch i wefan gyhoeddus y cyngor yn:

6ch) Mwy o Wybodaeth


Gwefan gyhoeddus Cyngor Abertawe - Gofal Cymdeithasol a Lles	Abertawe - Gofal Cymdeithasol a Lles
Ffrwd Twitter y Gwasanaethau Cymdeithasol	Abertawe - Ffrwd Twitter Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe
Sut gall y Gwasanaethau Cymdeithasol helpu gyda'ch gofal a'ch cefnogaeth	https://www.abertawe.gov.uk/article/2930/Sut-gall-y-Gwasanaethau-Cymdeithasol-helpu-gydach-gofal-ach-cefnogaeth
Cyfeiriadur Gwasanaethau Gofal a Cefnogaeth	Abertawe - Cyfeiriadur Gwasanaethau Gofal a Cefnogaeth
Gofal Cymdeithasol i Oedolion: sut gallwn helpu	Abertawe - Gofal Cymdeithasol i Oedolion: sut gallwn helpu
Cefnogaeth i Blant a Theuluoedd	Abertawe - Cefnogaeth i Blant a Theuluoedd
Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Blant a Theuluoedd	Abertawe - Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Blant a Theuluoedd
Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Abertawe - Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cymorth Brys - Gwasanaethau Cymdeithasol	Abertawe - Cymorth Brys - Gwasanaethau Cymdeithasol
Talu am Ofal Preswyl	Abertawe - Talu am Ofal Preswyl
Cyngor Abertawe - Polisi Codi Tâl y Gwasanaethau Cymdeithasol / Rhestr o Daliadau (2018/19)	Abertawe - Polisi Codi Tâl (y Gwasanaethau Cymdeithasol)
Cynllun Ardal Bae'r Gorllewin ar gyfer Iechyd a Lles 2018-2023:	www.baergorllewin.org/cynllunardal/
Asesiad Poblogaeth (Bae'r Gorllewin)	Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin
Cynllun Lles Abertawe - Gweithio gyda'n Gilydd i Adeiladu Dyfodol Gwell	Abertawe - Cynllun Lles Lleol

ATODIAD 1. CRYNODEB O BERFFORMIAD ANSODDOL A MEINTIOL

Qualitative Survey Results 2016-17 and 2017-18- Adults

■ Swansea Result 2017/18
 ■ Wales Average



ATODIAD 2 RHAGLENNI GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

a. Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

RHAGLEN GWELLA'R GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD (2017-2021) TROSOLWNG LEFEL UCHEL O BROSIECTAU A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL

Cymorth ac Atal Cynnar

Cyflawni Sefydlogrwydd

Cymorth ac Atal Cynnar

Cynllun a Phecyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant - Damian Rees

Llwybr at Radicaleiddio - Damian Rees

Llwybrau Continwmm (Rheoli'r Is-gr?p) - Teresa Mylan-Rees

Diwygio Gwasanaethau Chwarae a Hamdden - Chris Francis

Rhoi'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol ar waith - Chris Francis

Defnydd Effeithiol o Arian Grant - ??O'r Rhaglen Wella??

Cyflawni Sefydlogrwydd

Adolygiad o Broses CAP - Damian Rees

Cysylltiadau SAA â chynllunio perfformiad yn CGC a'r Gwasanaeth 16+ - Damian Rees

Strategaeth Digonolrwydd Lleoliadau - Chris Francis

Ailddylunio CGC - Haydn Nelson a Nichola Rogers

Cyfrifoldebau a Ddirprwywyd - Haydn Nelson

Adolygiad o Leoliadau Preswyl - ??Donna??

GGA - ??Damian Rees a Haydn Nelson??

Diwygio'r Panel - Donna Houlston

Adleoli T? Nant - Donna Houlston

Gwasanaeth MAPS - Donna Houlston

Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth - Donna Houlston

Fframwaith Ffioedd Maethu - Donna Houlston

Cefnogi Lleoliadau - Donna Houlston

Fframwaith Gweithredu Signs of Safety - Donna Houlston

Adolygiad o Therapi Mewnol - Donna Houlston

Diogelwch a Lles i Blant

Diogelwch a Lles i Blant

CRhP / Adolygiad o Brotocol Plant ar Goll - Damian Rees

Fframwaith Archwilio - Damian Rees

Cyfranogiad PPI mewn Adolygiad PDG a AP - Damian Rees

Adolygiad o Broses Cyfarfod Strategaeth Cam-drin Proffesiynol - Damian Rees

Plant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt (CINCS) - Teresa Mylan-Rees

Ymyl Gofal - Teresa Mylan-Rees a Haydn Nelson

Magu Plant Corfforaethol - Teresa Mylan-Rees a Chris Francis

Seibiannau Byr Dros Nos - Chris Francis

Gofal Cartref - Chris Francis

Ailddylunio CGC - Haydn Nelson a Nichola Rogers

Prosesau Diogelu Plant - Haydn Nelson a Damian Rees

Archwiliad CRhP - Haydn Nelson a Damian Rees

Asesiadau Unigol - Nichola Rogers

Strategaeth Anabled - Nichola Rogers

Trefniadau Maethu Preifat - ????

DOLS - ????

Canolfan Cefnogi Busnesau'r

Canolfan Cefnogi Busnesau'r

Dysgwyr Arweiniol (Rhaglen Gwella Addysg) - Rhodri Jones

Rhaglen Trawsnewid y Gwasanaethau i Oedolion - Lucy Friday

Adolygiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol - Mark Sheridan

Strategaeth Ymddygiad a Lles - Mark Sheridan

Rhaglen Abertawe Gynaliadwy - Vicky Thomas

Partneriaeth a Chydweithio

Lles y Gweithlu

Partneriaeth a Chydweithio

Ymgynghoriad Cynghorol gyda Phartneriaid - Damian Rees

Llwybr Cydweithredol i Atal Masnachu Pobl - Damian Rees

Offerynnau Pellter a Deithiwyd - Teresa Mylan-Rees

Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - Teresa Mylan-Rees

Llwybr Partneriaeth Canolfan CD - Teresa Mylan-Rees

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal - Teresa Mylan-Rees

Cyfraniadau Iechyd at Leoliadau Cymhleth - Chris Francis

Strategaeth Cyfranogiad / Cynllun Cyfranogiad - Chris Francis

Hyfforddeiaeth PDG - Chris Francis

Fframwaith Comisiynu ar gyfer Ymyriadau Arbenigol - Chris Francis

Cyfathrebu Allanol / Strategaeth Cydgyhyrchu - ????

Lles y Gweithlu

Swyddog Polisi a Datblygu (ar ôl adolygu) - Chris Francis

Ailddylunio CGC - Nichola Rogers a Haydn Nelson

Adolygiad o Rolau SAA - Damian Rees
Mangre UAG - Damian Rees

Hyfforddiant (gwasanaeth cyfan) - Teresa Mylan-Rees

Adleoli Tîm Cyswilt dan Oruchwyliaeth - Teresa Mylan-Rees

Strategaeth Lles Staff - Chris Francis

Strategaeth Cyfathrebu Staff Mewnol - ??Chris Francis??

Gyfarwyddiaeth Pobl - Debbie Reed

b. Gwasanaethau i Oedolion

RHAGLEN WELLA'R GWASANAETHAU I OEDOLION (2018-2021) DARPARU TROSOLWG O BROSIECTAU A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL

ATAL YN WELL

CYMORTH CYNNAR GWELL

CEFNOGI HAENAU 1 A 2 - MYNEDIAD CYFFREDINOL AT
GEFNOGAETH AR GYFER LLES AC YMYRRYD YN GYNNAR

Strategaeth Atal (Arweinydd - Peter Field)

*Yn cysylltu â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol
a Llesiant, Strategaeth Tlodi a'i Atal/Cynnwys y
Trydydd Sector/Strategaeth Cydgynhyrchu*

Strategaeth Ataliaeth y Gwasanaethau i Oedolion
(Peter Field)

Strategaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth
(Peter Field)

Model Gwasanaethau Integredig

(Arweinydd - Helen St John):

*Cysylltu â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a
Llesiant, Model Gorau Posib Gwasanaethau Gofal
Canolraddol Bae'r Gorllewin, model Canolfannau
Cymunedol Integredig a Strategaeth Rheoli Galw
Cyflwyno'r Model Gofal Canolraddol
(Lucy Friday)*

Datblygu'r Pwynt Mynediad Cyffredin
(Amanda Aldridge)

Gweithredu'r Gwaith i Ailstrwythuro Gwasanaeth
Gofal Cartref Mewnol
(Lucy Friday)

Ymagwedd Technoleg Gynorthwyl a'i Chyflwyno
(Amanda Aldridge)

Cydllynu Ariannu Cyfalaf a Refeniw Gofal
Canolraddol ar gyfer Pobl H?n
(Lucy Friday)

Trefniadau Cronfa a Rennir Cartrefi Gofal/
Datblygu Tîm Gofal Tymor Hir Integredig
(Peter Field)

YMAGWEDD NEWYDD AT ASESU

CADW POBL YN DDIOGEL

CEFNOGI HAENAU 2, 3 A 4 - YMYRRYD YN GYNNAR,
ANGEN A NODWYD A CHEFNOGAETH LEFEL UWCH

Strategaeth Datblygu Gweithlu (Arweinydd - Ffion Larsen):

Strategaeth Datblygu Gweithlu (Arweinydd -
Ffion Larsen):

Datblygu a Chyflwyno Fframwaith Arfer y
Gwasanaethau i Oedolion (Ffion Larsen/SGC)

Strategaeth Datblygu Gweithlu a'i Rhoi ar
Waith
(Ffion Larsen)

Rheoli Galw (Arweinydd - Alex Williams)

*Cysylltu â'r Ddeddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant, Strategaeth Atal a
Strategaethau Comisiynu,*

Adolygiad o Brosesau ac Arferion Diogelu
(Ffion Larsen)

Adolygiad Diogelu rhag Colli Rhyddid (Ffion
Larsen)

Strategaeth ac Adolygiad Taliadau
Uniongyrchol
(Ffion Larsen)

Rheoli Galw/Swyddogaeth Gofal Cartref (Lucy
Friday)

Addasu ac Adolygu AD/IM/Mwyafu'r cyllid ar
gyfer IM/AD
(Mark Campisi)

GWEITHIO'N WELL GYDA'N GILY

GWELL COST- EFFEITHIOLRWYDD

CEFNOGI POB HAEN O OFAL IECHYD, LLES A
GOFAL CYMDEITHASOL

Comisiynu (Arweinydd - Peter Field):

*Cysylltu â phob prosiect gan gynnwys
Y Strategaeth Cydgynhyrchu a Rhaglen Abertawe
Gynaliadwy*

Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref
Allanol (Helen St John/Peter Field)

Adolygiad Comisiynu Gofal Preswyl
yl i Bobl H?n
(Cathy Murray)

Adolygiad Comisiynu o Wasanaethau Dydd i Bobl
H?n (Cathy Murray)

Adolygiad Comisiynu o Ddarpariaeth
Gwasanaethau Anableddau Dysgu, Anableddau
Corfforol, Nam Synhwyrdd ac Iechyd Meddwl
(Peter Field)

Adolygiad o Systemau a Chefnogaeth (Arweinydd - Ffion Larsen):

*Cysylltu â'r model integredig rhanbarthol a'r Ddeddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Datblygu a Gweithredu System Wybodaeth Gofal
Cymunedol Rhanbarthol Cymru*

(Rhaglen Bae'r Gorllewin/Ffion Larsen)

Adolygiad Blyneddol o'r Polisi Codi Tâl
(Chris Davies/Lee Morgan)

Strwythurau adnoddau addas at y diben (UDRh)
Adolygiad o strwythurau rheoli busnes
(Deb Reed)

RHAGLENNI TRAWSBYNCIOL

- FFRAMWAITH ARFER Y GWASANAETHAU I OEDOLION
 - FFRAMWAITH MONITRO PERFFORMIAD
 - STRATEGAETH ARBEDION
- STRATEGAETH CYFATHREBIADAU A CHYDGYNHYRCHU